


M G.


1946

Sarnau





DEAN WYKE.



Dewi
Wynn.

Llanuwchllyn:
Ab Owen.

ARGRAFFWYD I AB OWEN GAN R. E. JONES A'I FRODYR,
CONWY.

Rhagymadrodd.



M Ddewi Wyn y dwedodd Islwyn, —“ Uchelfardd Eifion, *genius* mwyaf hil Gomer yn ol fy marn i.” A dyma farw beirdd, o amser Dewi hyd heddyw bron.

Ganwyd Dafydd Owen (*Dewi Wyn*) yn y Gaerwen, amaethdy ym mhlwy Llanystumdwy, Eifionnydd, ym Melhefin, 1784; yno

hefyd y bu farw, nawn Sul, Ionawr 17, 1841.

Tyddynwyr medrus a darbodus oedd Owen a Chathrin Dafydd, rhieni Dewi Wyn; a bachgen caruaid, tyner, a diargyhoedd oedd ei frawd ieuengaf Owen. Cafodd Dewi ysgol dda,—gyda William Roberts yn Llanyby, gydag Isaac Morris yn Llanarmon, ac wedi hynny ym Mangor is Coed. Daeth adre i amaethu wedi gorffen ei ysgol, ond parhaodd yn esfydydd ar hyd ei oes, gan dalu sylw arbennig i rifyddiaeth, cerddoriaeth, a hanes. Ond barddoniaeth a'i denai fwyaf, a phenderfynodd yn fore mai “amaethon boddlon a bardd” fyddai ar hyd ei oes.

Aeth ei frawd Owen i Bwllheli i fasnachu, ond dechreuodd ei iechyd ballu. Oherwydd hyn daeth ei fam a Dewi ato i fyw tua 1827, ond gan ddal y Gaerwen o hyd. Yn 1837 bu yr hoff Owen farw, a dychwelodd Dewi i'r Gaerwen, i fyw yno hyd ddiwedd ei oes.

Cwyna Dewi ar fywyd llenyddol Lleyrn ac Eifionnydd; ond yr oedd iddo gymdogion agos o'r un anian ag yntau, megis Rhobert ab Gwilym Ddu, J. R. Jones o Ramoth, Sion Wyn o Eifion, ac Eben Fardd.

Blynnyddoedd ei nerth oedd 1805 hyd 1820, pynhengo mlynedd disglair rhwng un mlynedd ar hugain o godi ac un mlynedd ar hugain o fachlud. Yn 1805 daeth awdl "Molawd Ynys Prydain," yn 1811 awdl "Arwyrain Amaethyddiaeth," yn 1819 awdl "Elusengarweli," ac yn 1820 awdl "Cyfarch y Gweithwyr."

Fflachiadau disglair, gwreichion byw, sy'n ein tynnu at Ddewi Wyn. Yr oedd i'w feddwl nerth angerddol; a cholodd lywodraeth ar y nerth hwnnw tua diwedd ei oes; gorthrymwyd ef, gorff ac enaid, gan fflangell ei athrylith ei hun.

Cyhoeddwyd gwaith Dewi Wyn, "Blodau Arfon," gan Edward Parry yng Ngbaer yn 1842; cyhoeddwyd atodiad gan H. Humphreys yng Nghaernarfon, yn 1869, dan olygiaeth Cynddelw. A chasglodd Myrddin Fardd bob pill a rhigwm a hanes oedd yn weddill i'r *Llenor* yn 1896.

OWEN M. EDWARDS.

Rhydychen.



Cyhwysiad.

	TUD.
MOLAŴD YNYS PRYDAIN. Awdl Molaŵd Ynys Prydain, a'i Hamddiffyniad rhag cenedd estron.	
[Cyfansoddwyd ar destyn y Gwyneddigion, 1803.]	
I. Prydain. Annerch yr Awen. Amrywiaeth,—dyffryn, mynydd, gardd, frydlif, rhaeadr, afon. Anifeil- iaid. Trigolion.	9
II. Hen Brydain. Hu Gadarn, Derwyddon, athrawon, saint, diwygwyr. Y Beibl Cymraeg.	16
III. Amddiffynwyr Hen Brydain. Caswallon, Caradog, Buddug, Arthur, Llywelyn, Owen Glyn Dŵr.	22
IV. Ein Prydain ni. Ei nerth. Dysg a Gwybodau, Gwaith a masnach. Haelioni. Cyandeithasau Llundain.	32
V. Amddiffynwyr ein Prydain ni. Y Môr a'i wyr,— Nelson, Cornwallis, Llaw Duw. Gweddïr Bardd.	36

ARWYRAIN AMAETHYDDIAETH.

[Ar destyn Eisteddfod Porthmadog, 1811.]

Cyfarch yr Awen. Dyddiau'r Cread. Gardd Eden. Llafur Adda. Y Diluw. Hen Genhedloedd Amaeth. Amaethyddiaeth yn newid wyneb y ddaeuar. Ei llawforwynion,—Ëferylliaeth, Dyfais, Llongwriaeth. Hu Gadarn, Coll. Wyneb Cymru'n newid,—planm coed, sychu'r môr. Trem ar olud Cymru. Gair dros yr Amaethwr. Mis Medi. Amaethyddiaeth a Rhyfel. Bara y Bywyd.	41
---	----

AWDL ELUSENGARWCH.

[Ar destyn y Gwyneddigion, Eisteddfod Dinbych,
Hydref 6, 1819.]

Gwrthddrychau Elusen. Duwies Elusengarwch. Haelioni Duw yn esiampl i ni. Brawdoliaeth dyn. Ffewythr Wiliam. Gwaith Elusen. Elusen a degwm. Duw a'r gweddwon. Dysgeidiaeth Crist. Y cybydd. Yr Eglwys fore. Elusen Crist. Elusengarwch yn dod i Brydain, cariad	
---	--

ati, ei hadnoddau, Duw'n drysorydd, Treth y Tlodion, Sior III. Elusengarweh yn mynd o Brydain i'r Dwyrain yn ol,—cwynddeiniad A'r Gorthymedig, y Feibl Gymleithas, yr Efyngyl, Caethwasiacth i ddarfod,—Wilberforce, Howard, Carey, Anghyfiawnder i ddarfod, Cyni'r gweith- iwr, Cyffes y Bardd.....	TUD. 65
GRUFFYDD DAFYDD O FRYNENGAN	91
AWDL CYFARCH Y GWEITHWYR, IONAWR, 1820.	
Plannu coed. Gwerth coed.	95
BEIRDD CYMRU.	
I. Cof Goronwy Owen. II. Beddargraff Dafydd Ddu Eryri. III. Cyfarch Eben Fardd. IV. Wrth ddarllen Salmuau Nicander.....	102
ENGLYSION POST MENAI.....	103
TORRI SYLFAEN MORGLAWDD MADOG	106
OES DYN AC ANGAU.....	107
BREUDER OES DYN.....	109
Y BARDD EI HUN.	
I. Portread. II. Wrtho ei hun. III. Deg ar hugain oed. IV. Englyn at y meddyg. V. Mewn afiechyd. VI. Adolygu ei fywyd. VII. Mewn gwell prellad	110





Y Darluniau.

DEWI WYN *Wynneb-ddarlun.*

O'r darlun ym "Mlodau Arfon," 1842.

"Dygaf brif enwau digardd,—
Amathen bodlon, a bardd."

CARTREF DEWI WYN *Wynneb-ddalen.*

S. MAURICE JONES.

Y RHAEADR *I wynebu tud. 9*

O ddarlun o Rhaedr Mynach gan y
CAPTEN BATTY.

"O'r creigiau, mewn parthau pur,
Yndreiglau mae dw'r eglur,
Elfen deneu, ysplesydd,
Llyfndeg, yn rhedeg yn rhydd."

Y GAERWEN fel y mae..... *I wynebu tud. 25*

O wawl arlun gan JOHN THOMAS.

"A'r dilydd, fel Addolydd,—i ei Naf
Wedi cynhaeaf wneyd cân newydd."

Y GWEITHWR..... *I wynebu tud. 65*

ARTHUR E. ELIAS.

"Noswyl yn iselidd,
A'r fynnes yn bres oer braidd;
Ba helynt cael ei blaist cu,
Oll agos a fewygu?"

FFORDY MAUGHAN *I rwynebu tud. 81*

O wawl arlun gan JOHN THOMAS.

" A da'r cof wedi'r cyfan,
Maughan am goed, minnau am gân."

PONT MENAI *I rwynebu tud. 105*


O ddarlun gan H. GASTINEAU.


BEDD DEWI WYN, ym mynwent Llangybi *I rwynebu tud. 112*

O wawl arlun gan OWEN EDWARDS.

" Er un iawn rodiad ar nen arhydedd,
Awen oreunaws—egni a rhuwedd,
O dan y gweryd ei lun y garwedd,
Ein Dewi enwog, hynodol Wynedd,
A'i ddawen iawr (pwy dlyn a'i medd)—
Y bardd a fawredd i biddol o'i fawredd." —a gollwyd,
JOHN THOMAS.







Y RHAFADR
"Uchel-gadr raeadr dŵr ewyn,—hydroyll,
Edrych arno'n disgyn;
Crochwaedd y rhedlif crychwyn,
Synnu, pensyfrd-mu dyn."



DEWI WYN.

YNYS PRYDAIN.

AWDL MOLAWD YNYS PRYDAIN A'I HAMODDIFFYNIAD RHAG
CENEDL ESTRON.

I. PRYDAIN.

Annerch yr Awen.

MERCH nef wen, mam llawenydd,
Goreura deg reit heg rydd ;
Da i anian dy eni,
Dedwydd o'th herwydd aeth hi ;
Fy nyweddi, fun wiwddoeth,
Rinweddol, urddasol, ddoeth.

Derch dy oslef bêr nefawl, — wawd astud,
Ar destun mynegawl ;
Dwg allan, yn deg ollawl,
Wir ddieithr gerdd ddoeth i'r gwawl.

O ! anfarwol awen firain,
Gwau a darwain aeg awdurol,
Gathl ragorol, goeth lwyr gywrain,
I wen Frydain wiw'n fwriadol.

Ar brif-ffordd, osgordd weisgi—mewn gwir-
barch,

Mynn gerbyd, dos drwyddi,
Hyd ddyffryn glyn goleuni,
Cyn adrawdd ei hansawdd hi.

Dewi Wyn.

Ffynhonnau Hanes.

Prydu a wnaſ, llwyrſ lles,
 Orlheiniſ lawer hanes,
 Yn mbrif geirdd pen beirdd y byd
 Caf wreiddyn cyfarwyddyd ;
 Deſtl ethol dystiolaethau,
 Yn bur o hyd i barhau ;
 Dilys wybyddys yn bur,
 Hen dreiglau, yn dra eglur,
 Carneddau, ac enwau gant,
 Nid diſtadl, iawn y tystiant.

Sŷyn hanes Prydain.

Pe bai hanesion pob ynŷoedd,
 Au henwawg gyn-hoedlawg genhedloedd,
 Oll gar bron yn fawrion niſeroedd,
 Llin Prydain ieſin a'i dinasoedd,
 Bro wen ei hanes, a'i brenhinoedd,
 A ewyllŷiwn drwy'r holl oesoedd.

Dadgan nos, dangos wna'r dydd,—waith
 enwog,
 Holl ddoethineb Dofydd ;
 Prif ſolawd y Creawdydd,
 Dan y rhod, Prydain a'i rhydd.

Afrifed yw dyledion—rhai aned
 Yn yr ynys dirion,
 Moli Ner, am le yn hon,
 Yw galwad y trigolion.

Ym pa araith, wemp orawr,—a gynnwys
 Dy ogoniant tramawr ?
 Pa iaith ? pa gerdd, gwerdd ei gwawr,
 A dderlun dy ddaearlawr ?

Amrywiaeth Prydain.

Odiaeth amrywiaeth mawr iawn—o wllithog
 Daleithiau tra ffrwythlawn ;
 Mamaeth pob toraeth liriawn
 O heiniar lliwgar yn llawn.

Y Dyffrynnoedd.

Bro hardd aroglber yw hi,—bro llawnion
 Berllennydd a gerddi,
 Dyffrynau, brynau llawn bri ;
 Addurnawl y wedd arni.

Ar y dyffrynnoedd hyfryd ffrw enwawg,
 Glaswyrdd orchudd gwiw lysiau ardderchawg ;
 Pob ffrwythau melysion, aeron eurawg,
 Cain yw cynnyrch y llennyrch meillionawg,
 A'n dewis goed blodeuawg,—pêrrawn cair,
 Oreuwawr ddisglair ar irwydd osglawg.

Y Mynyddoedd a'r Nîwl.

Uwch y gwaelodion, iach a goludawg,
 Wele'r brynau a'r creigiau cerygawg,
 Echrys ac utbrol ochrau ysgythrawg,
 A manau crebach uwch meini cribawg,
 Gar parthoedd ardaloedd deiliawg,—cymoedd,
 Mawrion fynyddoedd, a galltoedd gellawg.

Edrych ar un o'i odrau—i'w hir ben
 Ban yn y cymylau,
 Caddug llwyd a gwyd yn gau,
 Wisg addas i'w ysgwyddau.

Golud y Mynyddoedd.

I ddiosg hwn, twn to ôd—daw'n awel
 O deneu-wynt uchod :
 Gwelir deng mil o filod
 Arno 'n byw dan amryw nôd.

Dewi Wyn.

Yn anrheg wrth angenrhaid—cawn wisgoedd
 Cynnes gan y defaid ;
 Llaes yw'r wisg, dyd llysiau raid
 Deg hardd-wisg gwiw-bllisg gweu-blaid.
 O'r creigiau mawr caerogwyrth,
 Lliosawg, poblawg eu pyrth,
 Hybarch ydyw eu hebyrth—yn ddisglair,
 Mwnai a gair, a main gwyrth.

Y wlad odditanodd.

Gwelir oddiar freich-hir fryn
 Dewffrwyth amryliw 'r dyffryn,
 Glaswellt, ardderchawg lysiau
 Gloewon, perarogl ein pau ;
 Ar fronnydd y coedydd cain
 Dilledir â dai llydain ;
 Gwiw ednaint ar wydd gwydnion,
 A'u ffraeth brydyddiaeth bêr dôn,
 Canmawl yn hyfrydawl frau,
 Eurog engyl ar gangau,
 Difyrro â'u llefau llon
 Wybren nefawl, bro Neifion.

Gerddi.

Gerddi lle sang ar gangau—eirin pêr,
 Aeron, pob afalau,
 Dan gnwd o heirdd dewion gnau,
 Ymyrrant wrth y muriau.

Y Ffrydlif.

O'r creigiau, mewn parthau pur,
 Ymdreiglaw mae dwr eglur,
 Elfen deneu, ysplenydd,
 Lysndeg, yn rhedeg yn rhydd,
 Rinweddol o lesol, lân,
 Loew, oeraidd, o liw arian.

I' Rhacadr.

Uchel-gadr raeadr dŵr ewyn,—hydrwyllt,
 Edrych arno'n disgyn,
 Crochwaedd y rhedlif crychwyn,
 Synnu, pensityrdanu dyn.

Yr Afon.

O'i flynhonnau golau gant,
 Y ffrydiau hoff a redant,
 Dylifedd yn dolefain,
 Lle chwery pysg yn mysg main ;
 Yr afonydd drwy faenor
 Yn dwys ymarllwys i'r môr ;
 Grisial ar y gro iesin,
 Drych y ser :—dŵr iachus in'.

Y Pysgod.

Pob pysg yn gymysg mewn gemau,—llanwant
 Y llynnoedd a'r teiniau ;
 Eogiaid—pob rhyw heigiau,
 Mawrion gyrff drwy 'r môr yn gwau.

Y Gwartheg.

O anifeiliaid sy 'n felys—luniaeth,
 O, lawned yr ynys ;
 Saith ddeng muwch a ymddengys
 Ar y ddôl draw ger llaw 'r llŷs.

Meirch, ceirw, asyn.

Heb rus, hoewon ychen breision uchel,
 Meirch chwai, gymaint a nemawr wych gamel,
 A cheirw, a bychod, chwareu heb ochel
 Y maent, a hyrddod, mintai i'w harddel ;
 Daw'r asyn llwyd-warr isel—i'w dychryn
 A'i nad-lef, er ennyn dilofr annel.

Rhai milod ar y moelydd—wych yfroedd,
 Moch hirion mewn meusydd ;

Yr ŷch a'r march drwy barch bydd,
A'r carw o fewn i'r ceurydd ;

Mor ystwyth, chwimwth, a chwai,
Llamant, chwareuant, wych ryw,
Crochfloeddiant, hwy ruant rai ;
Gwyllt a gwâr a gâr ei gyw.

Pobl lân, lawen.

Glân heirdd ei thrigolion hi,
Yn ysgawn rodio 'n weisgi ;
Llawen, a bachgen heb ofn
Niwed gan filyn cofn.

Geneth dlos.

Mwyn awen i'r menywod,
O egni glâs a gân glod ;
Gwridog a hawddgar ydynt,
O lun a gwedd Elen gynt ;
Delwau o lendid Olwen,
Naturiol waed Trywyl wen.
Mun weisgi uwch main esgair,
Mewn tlysau golau a gair ;
Gemawg wen, meddaidd enau,
Angyles, arglwyddes glau.

Gweludstyr.

Tra enwog wladwyr, yn trin goludoedd,
Mor wychion ydynt, yn y marchnadoedd,
Blagurog a dewr fywiog dyrfaoedd
Yn syw dwyn ysgawn sidan wisgoedd ;
Aml ddisglair ddiwair ddeuoedd—yn dilyn
Hoew droediaw 'n iesin drwy y dinasoedd.

Y Bridd.

Gar dyfroedd hoff lifoedd flwch,
Tan irwydd mewn tynerwch,
Yn gwau ceirdd ceir y beirddion,
Eres hil, yn yr oes hon.

Awyr iach.

Gloew asur iach bur uwch ben,
 Llawn o adar, llin Eden ;
 Awelon oerion araf
 Drwy hon yn cerdded yr hâf ;
 Adferu 'r claf, llesg, afiach ;
 Bywiogi, siriolu 'r iach.

Coll, ei wenith a'i haidd.

Gwlawio defnynnau gloewawn,—ac wedi
 Y cawodydd maethlawn,
 O derydr haul nef diriawn
 Daw 'r gwres i addfedu 'r grawn.

Yna llifeiria holl sawredd—melys
 Yr ynys, a'i rhinwedd ;
 Blodau gwynion, meillion, medd,
 Yd, a gwin, pob digonedd.

Er dydd Coll,* ddigoll ei ddawn—gnawd i hon
 Gwdd o heiniar ffrwythlawn ;
 Gwisgir y grwndir â grawn,
 A'r irwydd â phêr aerawn.

Cudwgan, a iechyd.

Mi fum glaf mewn caethaf cur,
 Anaele oedd fy nolur ;
 Gwaelaf ddrych, gan nych, gwan iawn
 Dygwyd fi at Gadwgan ;
 Yn fanwl y'm hanfonai,
 Ar frys, er mawr chwys march chwai,
 I'r ddedwydd bau, olau, iach,
 Hen Walia, ple anwylach ?
 Iechyd a geis heb ochi,
 O'i hâr hardd a'i hawyr hi :

* Efe a ddaeth a gwenith a haidd gyntaf i Frydain.

Difyrach i'm hadferyd,
 Glân barth, nag elion byd.
 Hyfawl, hardd, dihafal hon,—gan enwog
 Anianol gynyrchion ;
 Yn draflith pob bendithion,
 I'w thecflu o radau'r Iôn.

II. HEN BRYDAIN.

Dyfodiad Hu Gadarn a i lu.

Da i hon oedd dyfodiad Hu—Gadarn,
 A'i giwdawd addwyngu,
 Mewn hedd i gyfaneddu,
 Ddidrais lwyth, a dirus lu.
 Ffraw bennaeth o Ddeffrobani,—neud dewr
 Anturiodd y weilgi !
 Chwimwth a'i leng uwch maith li
 Chwai'r hwyliodd uwch yr heli.
 Yr helaeth dir rheolynt,—gwyr moesawl
 A grymusion oeddynt,
 Ac undeb cadarn arnynt,
 Unawl gorff er Dyfnwal gynt.
 Y gwyr da oll coffaer,
 Wych saint, tra llewyrcha ser ;
 O iawn barch eu henwau byth
 Yn ddilyth tragwyddoler.
 Eu cais gynt, dda hynt, oedd hau
 Had addysg yn eu dyddiau.
 Celfydd er Coel a fu ddoeth :
 Syw er Morddal, saer mawr-ddoeth.
 Yn annatodol y gwnaeth ein teidiau
 Ar y tiredd y cestyll a'r tyrau ;
 Do'r magwrydd a'r uchel-dreni gaerau,
 Hynod oludawg hen adeiladau.

Cywrain gerfiaw âg eirf miniawg,
 Tyrau a llysedd tra lliosawg ;
 Gwneyd ein goror gannaidd yn gaerawg,
 Nes bai 'n eglur ynys biaglawg.

Ein hynafiaid o'u hanian wiw-faith,
 Hynod eu crafter i wneyd crefftwaith,
 Elwig, wyrenig, loew gywreinwaith ;
 Ac ni welir ail eu cynilwaith.

Hynt Madog.

Calondid uwch cul wendon—câs Madawg
 Symudodd yn ddiğllon,
 I faith Americ o Fôn
 Mordwyodd uwch mŷr duon.

Gorhoff, cyn taid Cristopher,
 Hwylies hynt wrth haul a sêr,
 Uniongyrch dewrgyrc'h deirgwaith
 I fôr yr Atlantic faith.

Ail Nefydd hylaw nosiwr—ar wyneb
 Yr ewynog ddyfnwr ;
 Rhwygai 'r donn ar gaerau dŵr
 Cawr o fonedd Corfiwr.

Y Derwyddon.

Hoew Brydeiniaid ewybr eu doniau,
 Hoffi pêr siwsig, a phob prif foesau ;
 Golygus giwdawd gloew eu gwisgiadau ;
 Hen wyr diarchar yn eu haurdorchau,
 A'u gleiniog droiog fodrwyau—mawrion
 Ein tir, a'n Derwyddon tra hynod raddau.

E fu Drywon â gleiniog fodrwyau,
 Gwyr dysgedig ag euraid wisgiadau ;
 Bore astudent, wiw barhaus deidiau,
 Yn y toreithiog anturiaethau ;

Gwiw eu hurddedig gyrhaeddiadau :
 Deall p'le y nadir, dull planedau ;
 Am sêr gwibiedig mwys ragwybodau ;
 Lled ragwelediad o'r holl dreigliadau.

Trwy ddeall llachar treiddiai Llechau
 Drwy fro anian a'i dirfawr rinau ;
 Iddo ymrithiodd amrywiaethau
 Meirw a bywion amryw bauau,
 A phraw' didwyll amgyffrediaidau
 I'w law fanwl,—teinlo 'r elfennau,
 Gwalchmai, Rhiwallon, hyfedr ddoniau
 Twymn y trwythent mewn naturiaethau.

A chlau wybodau i'w ben—o leiniawg
 Olwynion yr wybren,
 Gwyn ab Nudd gwynebai nen,
 A'i fyfyr drwy 'r ffurfafen.

Hen Idris a fu 'n edrych—ar wyneb
 Serenawg yr entrych ;
 Deallai drefn, dull, a drych,
 Y lluoŷn glân eu llewych.

Arwyddion lladmeryddiaeth—adwaenid
 Gan eu doniau helaeth ;
 Eu dawn uwch ben i nen aeth,
 Doniau goruwch dewiniaeth.

Yr Athrawon.

Gosod deddfau, cyfreithiau i Frython,
 Yn wiw wrth reol a wnai 'r athrawon ;
 Ar goedd eu brenhinoedd barnu 'n union,
 Gynt mor enwog oeddynt yn Mryn Gwyddon ;
 Ar orsedd oleuwedd lon—areithio :
 Ow in' droi heibio un o'u diarhebbion.

Caboli 'r iaith â'u cwbl rin,
 Helaethu a harddu hon ;
 Diod bêr, a mêr, i'r min,
 Loew gref frwd ni lygra fron.

E fu yn harddu 'r fan hon
 Ei throedd a'i hathrawon ;
 Adwaenynt, profynt bob rhan
 O rinwedd amryw anian.
 Eilyddion gorfoleddawl,
 A chlau dafodau o fawl ;
 Iawn wyddynt awenyddiaeth
 Cadeirfeirdd a phrif-feirdd ffraeth ;
 Pur o ddysg Perri a ddaeth—cyflawnddysg
 Gwyrth addysg areithyddiaeth.

Daeth i'n mysg dda sawrddysg y ddau Ferddin,
 Yn gynarawl, a'r enwog Aneurin,
 Dilynn a didwyll yn ei Ododin ;
 Gwawrdiaith eiliasant gyda Thaliesin ;
 A'u miwail geirdd mal y gwin—Dafydd mwy
 Enwer, a Gronwy yn un o'r grawnwin.

Drwy ddawn sfroch adroddion ffraeth,
 Er dydd Catwg ddiwg ddoeth ;
 O ddysg hen Gambold e ddaeth
 Lythyreg gall, lithrig, goeth.

Y Saint.

O ddilwgr grefyddolion,—cêd iawnddoeth,
 Caed ynddi enwogion ;
 Llawn o addysg llenyddion,
 Tra hen saint yr ynys hon.

Gwlad rydd i grefydd y Grog,—er Lleirwg,
 Wr llariaidd enciniog ;
 Yn rhestr y saint, braint ein bro,
 Ceir enwau gwyr coronog.

Dewi Wyn.

Tros eu ffydd gref goddefynt
 Lid creulon gwyr geirwon gynt :
 Blin ormes Dioclesiau,
 Chwerw echrys, cai 'r ynys ran ;
 Rhufeinwr hagr hyf ennyd
 Arteithiai, dirboenai 'r byd.

Baeddwyd, Och ! gan Babyddion— yn Is Coed
 Ddysgedig enwogion ;
 Diodde 'n brudd eirf llofruddion,
 Santaidd weis hwynt i Dduw Iôn.

Ond llu o Gymru a gaid
 Yn ddilwgr eon ddeiliaid :
 Tarawsant gâd y treiswyr,
 Bob gradd, gan eu lladd yn llwyr.

Er cael y gwawl a'r gair coeth
 I'w gafael, nefawl gyfoeth,
 Nifwl dros ein henafiaid,
 Nos erchell ar gell a gaid.
 D'ai chwil-lŷs diochelyd,
 Anghenfil, bwystfil y byd,
 Dan yr orthrom freichdrom fryd—erlidiawg
 Ferhoedlawg Fari Waedlyd.

Dau Iago 'n llarpio mewn llid ;
 Dau Siarlŷs fu'n dwys erlid,
 Cymylau ar gyrrau 'r gwawl,
 Ar guddio 'r Haul tragwyddawl.

I' Ddegygyr.

Dyma ryddid am roddi—i'r ynys
 Wawr anwyl goleuni
 Loer newidiawl wen ;—wedi
 Da lân haul i'w dilyn hi.

Darfu, Prydain gain, dy gur,—dadebra,

Dy wybren sydd eglur ;
Gwél rosyo goleu 'r asur,
Nefawl flam yn ufel flur.

Duw a gyfododd, diau gofiadon,
In', y Diwygwyr, ei weinidogion,
Wrth air Ridley a'i wir athrawiaeth radlon,
Cranmer cilwaith, y crynnai marwolion :
Hwy arddent, arloesent, wrawl weision,
Ein bro oer anwyl, hen bererinion :
I'r fro bu 'r ysgall, a'r efrau breisgion,
Y ceir gwinllannoedd caerog yn llawnion.

Y lle unwaith bu dylluanod,
Wele, mae yno golomennod ;
Yn lle rheibiawg ryfelawg filod,
Didwyll eglwys, diadell wiwglod,
Dyroes ergydion, dirus rwygiadau,
Yn yr usfernawl, angiriawl gaerau,
Drwy Harri frenin, a'i lin o lwynau
Syr Owain Tudur, oeswr o'n teidiau.

Trwy'r deyrnas, o ras, wiw rodd,
Rhyddid wridawg, hardd droediodd ;
Efengyl, anwyl, union,
Yn llaw, yn neheulaw hon :
Drwy William, da reolaeth,
I'r ynys dilys y daeth.
Gwydden frigawg, nerthawg nodd,
Mawladwy yr ymledodd
O'n bro dros lyrau yn brid,
Cyrhaeddodd ceinciau rhyddid.

Siriol arlwyddes eirian,—goronawg,
I'r ynys yn gyfran,

Hyd ennyd marwnad anian,
Boed onid el byd yn dân.

Y Beibl Cymraeg.

Rhynges bodd i'r Iôn roddi
Haul nef i'n goleuo ni ;
Ei ddoeth Air coeth, athraw cain,
Yn ein hen-iaith wiw 'n hunain.
Rhodded areithwyr hyddysg
Egni dawn yn eigion dysg.
Er cof syth o'r cyfieithwyr,
Sal'sbury, a Pharry, hofl wyr ;
Hoff enw 'r golygwr glân,
Mawryger William Morgan.

III.—AMDDIFFYNWYR YR HEN BRYDAIN.

A geir adrodd gwrhydri
Ein gwychion henafion ni ?
Hwyntwya ddiffynnynt hon,
Weis dewraf, ynys dirion.

Dewrder ein Hynafiaid.

Brodyr iawn ddewrion mewn brwydrau'n ddirus,
Cyd-redeg, heb atreg, yn ddibetrus,
I ladd arfogawl luoedd rhyfygus,
A'u trywanu mewn modd truenus.

Dilwgr waelod yn dal gwroliaeth,
Megys Eidiol gyflymgais odiaeth ;
Llymion eryron oll mewn aerwriaeth,
Teirw 'n hwylio, anturio 'n helaeth,
Llarpio, rhwygo rhywogaeth—plant estron,
Baeddu gâlön mewn buddugoliaeth.

Er gwyr arfawg, tariannawg, terwynion,
Ni rusent, ymroddent : O, mor ryddion !

Wynebent, anturient : onid dewrion,
Drywanu milwyr â'u dyrnau moelion ?

Llwyr ofer i Humber hyll
Gyrchu yn arfawg erchyll ;
Er chwai-gyrch ei farchogion,
Todd lli deifr Abi ei fron.

Y Prydeiniaid tanbaid, dewr,
I'w rhwygo, a'u llarpio 'n llwyr ;
Gloewent, defnyddient yn awr
Gledlyfau a dartau dur.

Dyffestin mewn trin hynt drom
Is cadr Efrog drylliog drem,
Maturiai Ffrainc, milwyr ffrom,
A'u difa drwy laddfa lem.

A phlaid ein henafiaid, hoew iawn nwyfiant,
Enwog wïw genedl yn ei gogoniant,
Ynfyd oedd ceisio lluddio ei llwyddiant ;
Rhufeiniaid, gormesiaid, ymgrymasant,
Yn gwbl rif rhag Beli 'r ânt—dros fagwyr,
Eirw gerth aerwyr er eu gorthoriant.

Cynnen a Golud.

Pau Prydain llawn pob rhadau—derchafed
Drwy 'i chyfoeth a'i breiniau
I nen ;—ond drwy gynnen gau,
Addfedodd i ofidiau.

Gwae wired yw y gair doeth,
Y daw gofid o gyfoeth.

I atal llesmair calon,—y gwinoedd,
Rhowch i'm genau weithion,
Tra bwy 'n adrawdd ansawdd hon,
Tan helbul gwlad hen Albion.

Y Rhufeiniaid.

Daeth Rhufeinwyr, gormeswyr grymusion ;
 Rhifai Iwl Caisar ryfelawg weision,
 Liosog lu enwog, dilesg elynion,
 A'u cais hollawl yn erbyn Caswallon :
 Saethu er brathu 'r Brythion, — yn gelfydd,
 Mal rhyw gawodydd eu haml ergydion.

A chref faniar goruwch y Rhufeiniaid,
 Er eu dinistr, chwai a fu 'r Prydeiniaid,
 Nes trywanu y creulawn estroniaid ;
 Tra anhoff i'w dewrion troi'n ffoaduriaid.

Afarwy fradwy frodor,
 Gwaidd Iwl, traws feddwl, tros fôr ;
 Herwr ffrom, o'i ddwy siom syn,
 Ymliwiai, malai ewyn ;
 A'i fywyd o byd i'w bau
 Dychwelodd ; do, i'w chiliau ;
 A'i ryfyg yn arafu,
 Gaisar fawr digysur fu.


Mor enwog ydych, hen Gymry 'n gadau,
 Cywir i'ch brenin ceir eich bronau ;
 A'ch gorwibiedig fachawg gerbydan,
 Moch y chwilfriwiwyd, rhwystrwyd eu rhestrau,
 Llwy'r rwygwyd eu llurygau ; — arfogol
 Luon addurnol, wele hwy 'n ddarnau.

Caswallon.

Syllu yn wrol Caswallon eurwedd
 Y bu 'r clau wyneb ar y celanedd ;
 Enwog ryfelwyr, d'ai mewn gorfoledd
 Yn oll o'i wersyll i'w freiniawl orsedd.

Anghydfod, hell dyngedfen,
 Naws o wae i'r i'r Ynys wen !





Y GARDES.

Brad marwol ysbryd Meirig,
Gwawdd gâlôn dewrion a dig.

Ploecyn y gelyn a gaid,—a Gloew,
Uwch glewion Rufeiniaid,
A'u mwythion Fehemothiaid:
Rhag y rhain, Ow! plygai 'n plaid.

Cŵyn i filwyr Cynfelyn,—o'u gostwng
Dan gysteg llu 'r gelyn;
Ar wasgar er goresgyn,
Eu rhwysg ataliwyd ar hyn.

Caradog.

Caradawg alluawg, digoll, eon,
Gwrolwyrch ef, a'r dewrwyrch frodorion,
Orhyfion luedd, a'u heirf yn loewon,
Blaenor ydoedd mewn trinoedd terwynion;
Rhag ei air gwelwai 'r gâlôn;—eryr craff,
Er gwneyd llwyr wastraff ar gnawd llu 'r estron.

Dirus wyr grymus ar grwydr—ormeilwyr,
Malodd hwynt fal glâs-wydr;
Ymlidiodd wyr mawladwy,
Drwy egni braich drugain brwydr.

Aregwedd dromwedd ei drych,—o'i dichell
Bradychodd y dewrwyrch;
Wrth gosio hon, bron ei brych,
Ar nadredd yr wy 'n edrych.

Holl ryfelwyr, baeddwyr byd,
Pellenig, grwydredig draed,
Ein holl fro gain wen ei phryd,
Drwy drin groch fu 'n goch o'u gwaed.

Tiriodd y gwylliaid dewrion,
Yn llu mawr, i ernill Môn;

Dewi Wyn.

Eu cyllyll a'u picellau,
A'u gwaewffyn, Och! goffhau.

Dagrau hyd ruddiau Derwyddon,—briw dwfu
A'u brodyr yn feirwon,
O afrad rhuthr y frwydr hon,
Gwae oer ofid gwryfon.

Bredd-wyl y Derwydd.

Hen Dderwydd llesg yn ddirym,
Saeth ddi nawdd yw adrawdd im,
Ymfwriai mewn myfyron,
Yn ddwys â phwys ar ei ffon ;
Ow! a deigr hallt y gŵr hen
I'w ruddiau dan dderw wydden ;
Gan ludded caled, wr cu,
Y gwasgwyd ef i gysgu.
Tybiai 'n rhwydd weld Derwyddon
O i amgylch yn llwyd-gylch llon ;
Wrth eddyl areithyddiaeth
Deffroed gân ei dafod ffraeth ;
O ethryb cael siom, athrist
Ymrôdd, e drengodd yn drist.

Gwae Arfon, a'i hydron hi,
Mewn galar trwm yn gwelwi ;
Llesmeiriawg, frwynawg fronnau,
Trais tost oedd yn eu tristhau ;
Eryri 'n well yr awrhon
I'w brodawr na maenawr Môn.

Budiug.

A Môn dan wastraff min dinistrwyr,
Tarawai Buddug etwa 'r baeddwyr ;
Haedd ganmoliaeth : O, egni milwyr
Llâs y gâlôn, lliosawg wylwyr.

Ynys Prydain.

Da deg Fuddug, odidog o foddau ;
Eurawg felynwallt, modrwyawg flaenau,
Yn llaes a guddiodd ei holl ysgwyddau ;
Goraddurnol wddf ac arddyrnau,
Hir-gariodd, hoew-wraig orau,—mewn lliwgar
Orloew dabar, wiw wrol dybiau.

O mor gu gwbl lu gwiw blaid
Yn brîd iawn o Brydeiniaid ;
Er jigwydd ei hawlwydd hi,
Tueddes graig at doddi ;
Cyd gwynodd, gwaeddodd y gwynt,
Afonydd a gwynfanynt ;
Da oedd un alarnad ddwys,
Cerdd Teifi yn cwrdd Tafwys ;
Si ereill yn cysuraw
Trist feirddion pendrymion draw.

Is Sefer, echrys ofid,
Rhwyg llwyr ymgyrnu rhag llid ;
Mawrhydri 'r ymerodraeth
Dileu 'n gwyr, i'n dal yn gaeth.

Wedi bod mewn trallod trwm,
Yn wrthddrych creulawn orthrwm,
Tynnwyd, dirymwyd yr iau,
Datodwyd, do, y tidau.

I' Saeson.

Ond wedi 'r rhyddhad odiaeth,
I'w gollwng o'r cyfwng caeth ;

Deuai i Frydain, i'w difrodi,
Germaniaid, a gwylliaid o Gelli,
Gwyddyl, Brithwyr, ymdyrwyr di ri',
Hil hen grwydriaid gelynawg Rodri.

Dacw erlynwyr, dig greulonwaith,
Yr aneddau a'r tyrau 'n oddaith ;

Ie 'r dinasedd ar dân noswaith,
Gan flantau brwd olau bu 'r dalaith.

Y beirddion gweinion dan gur,
Heb destun na b'ai dostur ;
Arwyddfeyrdd yn cyd riddfan,
O frwyn dwys, a'u llyfrau 'n dân.

O brinder nifer, bu 'r dewr henafiaid
A braw o berygl o flaen barbariaid,
Anffawd aruthr, yn ffoduriaid ;
O warth rhag rhydraws ruthrau crwydriaid
Mewn og'fau neu gloerau galarynt,
Y beichiogion yn welwon wylnt,
Mewn cilfachau 'n mhllith main clasfychynt ;
Ar weis gwrol yno 'r esgorynt,
Y rhai 'n gadau dewrion a godynt,
Yn ngwaed trechwyr eirf angau trochynt.

At wyr Ogygia troi gwegil—Brithwyr,
Ar ol Brython eiddil ;
Clybu Rufain, hoewgain hil,
Eu du gwynion di gynnul.

Danfon cwyn, mewn brwyn a braw,
Trallodaidd at wŷr Llydaw.

Gwawdd cadawg eiddig gedyrn,
Gwarth hyll, a orug Gwrtheyrn ;
A'i fab chwai, gwae fi, bu chwynn,
Gwallgofus, fradwrus deyrn.

Ond dacw ben llawenydd :
Gwrthefyr ar fyrr a fydd ;
Ac Emrys, enwawg Gymraw,
Yn dal drwg hell genedl draw ;
Ac Uthr, iawn aruthr y nod,
Trwy derfysg, tri diorfod ;

Ond llâs hwynt, nid o wall saeth,
Er dewred, drwy fradwriaeth.

Arthur.

Os yw gyfyng is gofwy—ar Brydain,
Wedi 'r brad ofnadwy ;
O'r wlad hardd i'w herlid hwy
Cawn Arthur i'n cynorthwy.

Llu 'r Sais, bid yn llwyr y son,
A fedodd yn arfodion ;
Y cefnfor, trwm ruo 'r oedd,
Achwyn o ddwyn byddinoedd ;
Ail diddim ar led oeddynt ;
Soff, neu gawn, us o flaen gwynt ;
Clodfawr, â'i gledd Caledfwlch,
Gwnai 'r brenin drwy 'r fyddin fwlch.
Pery yn hir ei glir glod ;
Madru wna enw Medrod.

Ei lon olygon di lid,
Glain neu berl goloewa 'n bod :
Dychryn i'r gelyn a i gad,
Tân rhuddgoch croch dros ben cred.

Llywelyn.

Llywelyn ddiball eilwaith,
Caffai rwysg ; cofheir ei waith ;
Ar for a thir hir barhau,
Heb ludded, llew 'n lladd bleiddiau :
Gan hil y Cymry dilyth
Bydd caniad ei farwnad fyth.

Owen Glyndwr.

Ein gwrol enwog aerwr,
Un glân deg Owain Glyn Dwr ;
Owain er Prydain wr prif,
O'r dewrion aerwyr dirif ;

Bu 'r dewraf o'r brodorion
Gynt a fu o Gaint i Fon.

O na buasai yn bwysig—i'n dwyn
Oddi dan iau Seisnig,
Gan Owain, ar ddamwain ddig,
Lu odiaeth Maxen Wledig.

Hen wrolion gwychion gant,
Mawryger hil Gomer gynt ;
Trwst bys gwyn ar dynn aur dant,
Yw coffhau eu henwau hwynt.
Colli Lloegr wlad glodadwy,
Och o'r modd, o'u hanfodd hwy.

Nid cais na malais milwyr,—nid arfau,
Neu derfysg ymdreiswyr ;
Diochel waith bradychwyr
Oll oedd yr achos yn llwyr.

Dyddiau'r Cacthiwed.

Dan Iorwerth ddidynnerwch—wylofus
Gyflafan a thristwch ;
Anhoff lid i'r beirddion flwch,
O'u gwrol dueddgarwch.

Beirdd a bôn ffyddlon yn ffoi,
Gan anheddwch drwch di drai,
Min y cledd awchlym yn cloi
Grymusion, wrolion rai.

Gan fraw, a cholli 'r awen,
Caid bardd nas codai ei ben ;
Dan gur ffoadur ydoedd--
A gwae fi, y gaeaf oedd.
D'ai 'r eos gyd a'r wyalch,
Canai bwnc, o enau balch ;

O'i hun yn gytun d'ai 'r gôg
 Er dyddau 'r diddonieg ;
 Tri thant crwth, traethynt eu croew
 Dri mein-lais yn dra mwyn-loew ;
 I'r mud ben d'ai 'r awen rydd ;
 Bu dirion yn bedwerydd
 Main y graig wen, gymen gôr,
 Llon gyd-dôn gar llaw 'n gwatwor.

Beirdd Cymru.

Er llid, er gofid, mor gu—er Tydain,
 Mae'r teidiau yn prydu,
 O wir reddf cynneddf canu,
 Gwiw ddawn hed Gwyddon a Hu.
 Yn mhob oes a gwiw-foes gant
 Caid prif-feirdd, wyr heirdd ar hynt ;
 Celfydd er Plennydd yw 'r plant,
 Mal Alon a Gwron gynt.

Er tân flamawg deirt anhoff lymion,
 A heigr ruthriadau gwŷr athrodion,
 Y lleill â'n miniawg gyllyll meinion,
 Uthr y bradwriaeth i'r brodorion ;
 Er cael adfyd, gan waedlyd genhedloedd,
 Drwy greulon ymryson amryw oesoedd ;
 Wele o'r genedl lawer o gannoedd,
 Ddianaf ddynion, heddyw 'n fyddinoedd.

Er i'r Sais mewn trais ein trin,
 A dwyn ein gwlad, brathiad bron,
 Cymraeg wir hen-aeg o'i rhin,
 Ein gwir hawl pob gair o hon.

Ai er ei mwyn, ciriau mêl,
 O'n ciwdawd hen cadwed hil ?
 Tra rhed gwaed nac aed dan gel ;
 Parcher hon gan feirddion fil.

Bras Walia a breswylwn ;—ein helaeth
 Aeg odiaeth a gadwn ;
 Ein Ner bythol a folwn,
 Trwy hedd o fewn y tir hwn.

IV.—EIN PRYDAIN NI.

Brenin Prydain, gain gynnor,
 Pen llywiawdr, ymerawdr môr ;
 Ei goron yn blaguro
 Ar ei ben yn hir y bo.

North Prydain.

Siors addfwyn is ei orseddfaine—cydwedd
 Yw tair ciwdawd Prydain ;
 Cadwyn sy 'n ffrwyn yn safn Ffraine :
 Gwae i'r Twrc er y teir-caine.

Brawdgarwch, ysbryd gwrawl—yn gyswllt
 I'w gosawd yn unawl,
 Cadarn deyrnas urddasawl
 Ynt yn hon, un fraint, un hawl.

Byddinoedd, lluoedd, ar eu llwon
 Milwyr, enwog wylwyr un galon ;
 Rhag gormeswyr, dig aerwyr geirwon,
 Galanastra, gelyn neu estron.

Blodau brithion, neu ser cochion,
 Braw gelynnion, brig-lu enwawg ;
 Meirch, marchogion, chwai grymusion,
 A greddf eon, gwawr ruddfawg ;

Pob graddolion, dan eirf gloewon,
 Is llywyddion, weis llueddawg ;
 Pob cerddorion, a'u lleis mwynion,
 Oll ymuno 'n gorff llumanawg.

Mab erlid yn ymbarlu—â Phrydain
 Hoff wrldawg dan wenu,
 Dewr megis yn dirmygu
 Ei nifer lawn a'i sawr lu.

Weithiau nesu, wyth wae 'n ei woseb,
 Am ein cusau mewn casineb ;
 Ar randir ei erwindeb—ninnau,
 O'n peiriannau 'n poeri i'w wyneb.

Trefn natur, mesur moesawl,—wych hoewfaint,
 Ei chyfraith freninawl,
 Dwyn yr iau, dyner reawl,
 A wna 'r byd yn fyd o fawl.

Prydain, neud mirain y modd—llaw freiniol,
 Llyfr anian egorodd,
 I'r holl ynys darlennodd ;
 Bu 'r araeth bêr wrth ei bodd.

Mor hafaidd ym, er rhyfel,—pe ba'i modd,
 Pob math yn ddiogel ;
 Tal d'wysog, tylawd isel ;
 Pob rhyw radd yn gydradd gwel.

Trefna Sior, a'i gynghoriaid,—seneddwyr,
 Sy'n addas flaenoriaid,
 Rhôl glywiau a rhaglafiaid,
 Swyddogion, gwbl eon blaid.

Harddach, rhagorach i gyd
 Heddyw, gwir yw, nag erioed ;
 Hawddamor tra byddo'r byd
 I Frydain Fawr bob awr boed.

Dysg a gwybodaau.

Diysgog bid ei dysg a'i gwybodaau,
 Prawf o'i holl wiw-faint, pwy rif ei llyfrau ?

A'i goleuaf ddiawwl gelyfddyddau,
 Creiff, wyrenig, gywir offerynau ;
 Arbed lludded drwy allweddau—gwyrrhiawg,
 Wych a mygedawg ddychmygiadau.

Y bryniau diau dyall
 Dirgel-iaith berffaith, ddi ball.

Banerawg bennau oerion—llawn geiriau,
 Ond eu tafodau ydynt fudion ;
 Etwa nhwy waeddant y newyddion
 Mor uchel nes el yn son—goffrydiawl
 Am eu hydreiddiawl ymadroddion.

Gwisg orfoneddig ysgrifenyddwaith,
 Tŵr gwlad yr addysg, trigle adroddwaith :
 Y gwiwdeg lenni â gwawd, a glanwaith
 Llwythir â geiriau llithrig araith.

Ar deneuwen len cyflwynaw—mynag

Manwl lafar distaw,
 Aeg lād i'r llygad o'r llaw,
 I'r un byddar yn buddiaw.

Pob dinas yn urddasawl
 Gan sain clych mynych eu mawl ;
 Yr organ a'i harwrgerdd,
 Mân dannau yn cydwau cerdd ;
 Try 'r tabwrdd, agwrdd ogyrch
 A'i gref gainc, ag eirf o'i gylch ;
 Yr udgorn ar barodgais
 A dery glir droawg lais ;
 Gawrio yn groch, ffoch, a ffraeth,
 Yn wrol mewn blaenoriaeth.

Pob offer cerddbêr er cynt,
 Er dydd Cellan a'i aur dant ;
 Gwau pob llais a'u hadlais hwynt,
 Dan fys, ac wrth felys fant.

Mwg y Gweithiau.

Dirus uwch rhawd dysfnderoedd
 Aml ddrylliawg, gyflegrawg floedd,
 Tyrfaeu mal taranau 'r wybr,
 Rhŵth ruad, â rhuithr ewybr.
 Gwreichion fflamau goruchel,
 Mŵg yn dyrch a gyrch heb gêl
 Yr un modd ag uwch goddaith
 I'r wybren fry, bro wen fraith.

Ffyrdd Masnach.

Yn wirfoddol un a orfyddai
 Am iesin wychder y masnachdai ;
 Uwch Tyrus eurdeg eich trysordai ;
 Pwy a wêl ostwng eich palasdai ?

Marchogiawn hoff iawn ffyniant,—eu haeledd
 Yn helaeth amlygant ;
 Ar gadair ddisglair ydd ânt,
 Ar lawr heol aur hauant.

Amryw negesyddion, mor enwog eu swyddau ;
 Gwir cywir heb oedion yn gyrru cerbydau ;
 Ar brif-ffyrdd ein bro, gorodidog rediadau.
 Trafaelio trwy 'r ynys a'u twrf fal taranau.

Haelioni.

Amryw o fonedd yn rhannu, mor fwynion,
 O'u da oludoedd i wael dylodion ;
 Neud derchasant hwy oreu achosion,
 Hau'r Gwir a'i daenu drwy gariad union :
 Henfflych i'ch ceinwch amcanion ;—dan grêd,
 Yn llwyr, O deued yr holl wyr duon.

Llundain a'i Chymdeithasau.

Caer Ludd frig eurawg, dyrawg, dirion,
 Acw mae 'r gwiwddoeth Gymraegyddion,
 Ar gynnydd hygar Gwyneddigion,

Gorddysgedig o urddas Gwydion,
A'u cyrhaeddiad enwog, gwyr rhyddion,
Tu hwnt treiddiad hynod Derwyddon.

Gwyneddig awenyddion—heb wyrni
Y barnant orchestion ;
Os heb y Gymdeithas hon
Nid arab Llundain dirion.

Yn mysg ereill mewn moesgarwch,—rhandir
Tiriondeb a heddwch,
Ail ei phrid hoff lendid llwch
I rosyn mewn dyrswch.

V.—AMDDIEFFYNWYR EIN PRYDAIN NI.
F Môr.

Paradwys wemp, prid y son ;—Eden deg,
Yn dwyn dail, a meillion ;
O amgylch ogylech eigion
Y môr hallt yw muriau hon.

Y diddwl wlyedyddion,—rhag ystryw,
A gwastraff gelyniion,
Gorchwinwth hyd ystwyth donn,
Gan frigawg nosio 'r eigion.

Yn llengoedd y gollyngant—eu bolltau,
I bellder y treiddiant ;
Llongau estron gwychion gant
Yn 'sgyrion a wasgarant.

Y cestyll mawrion ein gânlon gwyliant,
O ddautu 'r ynys gwrdd y taranant,
Gorhydr, brigerau drwy wybr a gariant ;
Un o'u banierau er neb ni wyrant.

Trwy lynes estron yn hylion nosiant
Cynrychion Prydain, dda gain ddigioniant,

Tros y gloew-fôr o'i goror a gariant,
 Goruwch yr ewyn yn groch lwy ruant ;
 A'u dieithr fasnach deuant—i'r ynys,
 O dda ewyllys lwy a ddiwallant.

Cyffyrïau trysorau tra syw ariant,
 Goludedd ddigon i'n gwlad a ddygant,
 Mor hoew uwch eigion y marchogant,
 Drwy amryw duedd daear mordwyant,
 Ei chanol amgylchynant,—ardderchog
 Hanesion enwog toreithiog traethant.

Gwae 'r holl bysg lle terfysg twrdd
 Chwei-gyrc'h y mor-feirch agwrdd,
 Llestri Sior a'i drysorau
 A'u ffyrdd drwy 'r môr gwyrdd yn gwau ;
 I drin ei lynges pan draidd
 Cryn Europ, cair yn waraidd.

Americ a ymwyra—o gyffro
 Gwae Affric ac Asia,
 Os mawr-air byd llesmeiria,
 A goreu dim o'i gair da.

Nelson, Cornwallis.

Duw 'n geidwad in' a gododd
 Nelson fyg, Cornwallis un fodd ;
 Yr enwog offerynau,
 Dychryn i bob gelyn gau ;
 Gorwyllt eu byllt, grill di baid,
 Taranant rhwng estroniaid ;
 Ymwyga y môr ogylech,
 Gohwnc ein gŵlon o'u cyleh.
 Oes hir eiddunir i'r ddau,
 Meini mawrion mewn muriau ;
 Rheolydd yr awelon
 A'u cadwo tra tyrfo tonn ;

Hwynt a'u hepil yn ddilyth,
Llwyddiant di ball iddynt byth.

Môr-aerwyr,—pen morwyr myg,
Cynllun er y cynllun Cook,—
Aruthr yw eu rhuthr er Hawke,
Dirus y blaidd er oes Blake.


Llaw Duw

Cyrraedd ogylech caer ddigoll,
Yn llaw Duw mae 'n lluedd oll.
Gwarcheidwaid goruwch edyn,
Fwltur y wanc fol taer wŷn ;
Trugaredd trwy ei goror,
O ras ac ymaros lor.
Mor weddus am hir oddef,
Yw inni ei oŷni Ef,
Rhag i'r wialen gael cennad
I droi yn gledd drwy ein gwlad,
A cherydd ein Tad cadarn
O chwith droi 'n felldith drwy farn.
Anfudd fu 'r henafaid ;
Ond pa fwy 'r gofwy a gaid ?
Ail y gosp ar Israel gynt,
Aml hagr-wae pan ymlygrynt.
Dilŷer balchder y bôn,
Godineb, pob drwg dynion ;
Is Sior y dêl trais i'r dim,
Pob gau i'w ddyddiau 'n ddiiddim ;
Cyfiawnder a thynrwch,
I droi llid i'w dyrrau llwch ;
Bucheddol fo 'r trigolion,
Yn ol gwiw reol gair Iôn :
Ceisio 'r Oen, cashau 'r einioes ;
O iawn gred cyd ddwyn ei groes.

Bid yn goron gogoniant,
 Yn ein plith, nuni a'n plant ;
 A boed gwedd ei wyneb yn
 Hyd wyliau canu 'r delyn,
 Hen Brydain yn baradwys,
 Bryd cain, heb aredig cwys ;
 Pur seibiant parhaus sabbath—
 Ni fu yn Nghanan y fath.

Gweddî'r Bardd.

Heb Brydain gywraïn i'w gylch,
 Heb degwch yw 'r byd ogylech ;
 Yr Ynys Wen dirionaf,
 Cadwed dy nodded di, Nâf ;
 Treiglau hynod Rhagluniaeth
 Yn dy law sydd ; dilys saeth ;
 Arhôd hon er daioni
 Yn gaergylch o'i hamgylch hi,
 Rhag pob gelyn, dyn na diawl,
 Gweis tarianog estronawl,
 Na bradwr o fewn Brydain,
 Trwy 'r tir, na boed tra rhed Tain.
 Rhad hyd farn, Rhydïd a fo,
 F'n goror yn blaguro ;
 A gweler heddwch giwilon
 Yn oes haul i'r ynys hon ;
 Curo pob cleddyf cywraïn
 Yn swch ! Clyw 'r engyl y sain.
 Llwy'r glirïaw ffordd yr awen,
 Y tir â mawl toir. Amen.



Arwyrain Amaethyddiaeth. 41

AMAETHYDDIAETH.

"A'r Arglwydd Dduw a gymerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi."—MOSES.

"Cynnyrch y ddaear hefyd sydd i bob peth: wrth dir llafur y mac y Brenin yn byw."—SOLOMON.

"Ni chydfydd Awenydd wâr,
A dynion dybryd anwar:
Dygymydd Dduw ag Emyn,
O Awen dda a wna ddyn,
Cân ddifai i rai a roes,
Ennill tragwyddol einioes."—GORONWY.

Cyfoeth yr Awen.

RRO AWEN, drylen draeth,
Trwy wyddiant Daearyddiaeth;
O am ddawn i freuaw 'n siraeth—gyfansawdd,
A dull i adrawdd Diwylliodraeth.

Daear aflunaudd a gwag.

Efydd ar drin daear deg,
Hynafiaeth hon i ofeg;
Diweddar cadd o'r dyddim,
Ei chreu, a'i dechreu o'r dim:
Yr ail dydd, pa ddefnydd yw?
Adail anorffen ydyw:
Ni wêl un angel, na neb,
Un eginyn o'i gwyneb;
Rhyfedd iawn! Rhyfedd an nhrefn,
Edrych mal tŷ heb ddodrefn;
Byd fu oll yspaid felly,
Heb na phren, dyn byw, na phry'.
"Bydded."

Y ddaear fu'n aflun noeth,
O dirioned oedd drannoeth!
Yn draillith i'r gwllith, mor glau,
Ganwyd afrif eginau!

Dewi Wyn.

Lliosog caid llyisiau eu,
Coed heirddion yn cyd darddu ;
Myrddiwn a mwy o irddail,
Daear oedd yn dŵrr o ddail.
Pob lliw a rhith dewfrith dw'
Oedd bŵr newydd eu bwrw ;
Llygaid seraff cannaid eu,
Syw ar hon yn serenu !

Ebrwydd dw' o bridd daear,
Cyn bod gwaith, gwrtaiith, nac âr ;
Rhyngodd bodd i'r gair BYDDED,
Amlhau perlyisiau ar led,
Aneirif brennau araul,
Cyn bod trefn y rhod na 'r haul.

Y pedwerydd dydd doddyw,
Haul, lloer, sêr, llu awyr syw,
Pwysiau cwmpas awyr,
Di rif i'w gweled yr hwyr ;
Goruwch daear lachar lu,
Un ogyth ni wna wgu ;
Anfon iddi 'n feunyddiawl,
Groesaw gwych eu gwres a'u gwawl.

Cysgodau y prennau prid,
Un foddion a ganfyddid,
A'r afalau, erwybrau crog,
Aur ddysglau ar wydd osglog.

A'r Naf alwodd yr anifeiliaid,
Rhai gwâr a dewrion ; pob rhyw gre'duriaid,
Wrth eu rhywogaeth ; odiaeth ehediaid,
Llu miwaill ysgawn ; a'r holl ymlusgiaid,
A da iawn a diniwaid—oll oeddynt,
Di boen y dygynt hadau bendigaid.

Yna'r Duw uniawn er daioni,
 Adda a luniawdd, o'i haelioni,
 Ar ei lun ei hun yn lân heini;
 Yma y rhoed ef mewn mawrhydi
 Yn flaenrhed i'w rhifedi,—megidydd,
 Neu areilydd i'w hiawn reoli.

Gardd Eden.

A'r lân a blannodd o brennau bloenawl,
 Yn nwyrain Eden, ardd orhynodawl,
 I ddwyn aeron, neu addon rhinweddawl;
 Heb ddim ffrwythau, na hadau niweidiawl;
 Dygodd yr enwedigawl—ddyn yno,
 I lafurio 'r Baradwys lifeiriawl.

Pob rhyw fywiolion, dofion y dysynt,
 I'w wydd ar freys, dan wfs y dynesynt;
 Aew yn wiriawn, y cyniweirynt;
 Hynod mor addwyn o dymer oeddynt;
 Addaf rôl enwau iddynt—priodawl,
 Yn wahanawl i bob un o honynt.

Y dyn gwridawg, dien greadur,
 A'i wraig a gawsai er gwiw gysur,
 Yn byw yn Eden, yn benadur,
 Aml yw ei ofal am ei lafur;

I bob rhan o'r berllan bur,—y rhodiant,
 Arab olygant ar y blagur,
 Heirdd afallenau 'r ardd feillionog,
 Yn dwyn tlysau ydynt liosog,
 A'r addfed ffrwyth, crwmlywyth crog—yn
 gniwiaw,
 Ar ganghennau y delwau deiliog.

Telediw yw ffriv y ffrwyth,
 Gan berlau boglynau gwllith,

Aroglber felusber lwyth ;
Mêl pur ar y blagur blith.

Gwypai, deallai y diwyllydd,
Amser addon, addfedion fwydydd ;
Ac ar iawn gymull grawn y gwinwydd.
Meithrin hadau hoff rithau 'r ffwythydd,
A'i ddyled fal Addolydd—i ei Naf,
Wedi cynhaeaf wneyd cân newydd.

Addaf mewn dedwyddydd,—ai ni roddodd
Nêr iddo seguryd ?

Wi ! Ai garddwr wy'n gwrddyd,
Yn Eden yn berchen byd ?

Dynoliaeth Eden wiwlon,—delw Duw

Wele dan ei choron,
Ni bu ry hardd mewn bri hon
I weithiaw fel Amaethon.

" Mellidgedig fydd y ddaear o th uchos di."

Llywiawdwr pob llu ydyw,
Gwr dros ei Greawdwr yw ;
Ba aflwydd, f' Arglwydd, a fu,
I'r dewr swyddwr droseddu ?
Gyrrwyd o'r ardd ragorol,
Gan Dduw nef, ac ni dd'ai'n ol.

Gwinwydd fyddent yn gwenu,
Yn gwywo 'u dail gan w'g du ;
Ednod nef cydlef eu cân,
Ar irwydd yn rhyw eran ;
Ar bur wawr yr wybr eres,
Pa ryw ddull prudd a lliw prês ?
Yma anian am ennyd,
Aeth i argyllaeth i gyd.

Brychodd holl gynnyrch y llennyrch llawnion,
 Ebrwydded darfu pob irwydd trefion ;
 Ad-dyfodd llysiau a sawriau surion,
 Yr ysgall ydynt,—pob rhyw hesg llwydion,
 Lle yr oedd balm a phren almon—edrych
 Meriw a bresych, a mwyar breision.

Dwyn dail marwol danadl a mieri,
 Pob grawn gwylltion yn drawsion, a d'rysi ;
 Yn lle balalwyf, mewn lle bu lili,
 Abrywsgl anial wigau, a brysglwyni,
 O fewn y rhain swy na rhi—wiberod,
 Pob rhyw wylltflod hynod i'w henwi.

Lliaws cain hynaws cyn hyn,—o dda
 A roed i Adda ar ei dyddyn,
 Yma wele pob milyn—a aeth
 I ddynoliaeth heddyw yn elyn.

A gwŷn newyn, gan awydd,
 Rheibiant a rhwygant yn rhydd ;
 Yn lle llysiau blodau blydd,—goddifa,
 Llewa eu gwala oll o'u gilydd.

Adda yn udd aneidlil,
 A fu yn maethu pob mil ;
 Wedi hyn o gnawd ei hil,—aml yma,
 Bu westfa pob bwystfil.

Ond er cynddrwg y gwg oll,
 Wedi'r anffawd ar un stull,
 Nid aeth dyn gwedyn yn goll,
 O nawdd lôn :—ar newydd ddull.

Adda'n llafurwr.

Dacw Addaf, gyntaf gwr,
 Yn fore yn llafurwr ;
 Deol surwellt y felldith,
 Cloddio a cheibio sy chwith ;

Ei wisg datoda 'n esgud,
 I'w law mae arf a darf dud ;
 Mewn bwriad mynnu bara,
 Yn lluniaeth, o doraeth da ;
 Dacw 'r chwys, megys gwllith mân,
 Ar ei brudd ddwyrudd eirian ;

Bendith Duw ar lasur.

Duw Ior nef o'i dirion nawdd,
 Ei orchwyl a gynhyrchawdd ;
 Gwelaf ar y ddaear ddu,
 Meillion gwynion yn gwenu ;
 A blodau almonau mad,
 Pob brig ar defig dyfiad.
 Ar hyn pob edyn o'i big,
 Sy 'n trydar swm troedig,
 Rhyw ddeg can mil o'r sil sydd
 Organau ar y gwinwydd ;
 Gan eu bywiog serchog sain
 Llyma f' ednyw yn llemain.

Dof creduwiaid.

Ydd Ior a wareiddiodd i ryw raddau,
 Rai cre'duriaid o'r euraid ryw orau ;
 Neud rhoi rheol, i'w nawter, a'u rhywiau,
 I ddyd yn weision addwyn eu nawisiau,
 Dacw y milod, ewigod, camelau,
 Y meirch a'r ychen mawrwydych o'r achau ;
 Biw, behemothiaid, bob mathau—'n llonydd,
 Hyd y maesydd diuwaid eu moesau.

Rhai mwy difawg efrwg ac afrwydd,
 Wedi 'r newidiad i'r annedwydd,
 Ddiffaith goll gyfraith, a gwallgofrwydd
 Er eu dyhired, mwy 'r deheurwydd,

A'r grym yn gyflym i'w gwydd—sydd gennym
I ffrwyno awgrym eu ffyrnigrwydd.

Cyn y Diluw.

Y cynddiluwiaid cain dda lewyrch,
Ar winllanoedd y rhai'n a'u llenyrch,
Ewybr y caent wobr eu cyrch,—grawn a medd
Bu digonedd o bob adgynnyrch.

Llacw hiroesawl, dra gwrawl gawri,
Hoew cyfodant, i hau ac i fedd,
Planynt, cain adeilynt cyn y dyli';
Ond Ow i'r genedl fyw mewn drygioni!
Poblygredd, drawsedd di ri'—Duw ddigiawdd,
A rhybuddiaudd y rhoi ddwr i'w boddi.

Y prif gyffrolif ffreulyd,
Dad-drodd, cybolodd y byd;
Y cwbl aeth yn draeth di drefn,
Ar ei ddodrefn, oer ddedryd.

Trem newydd;—trwm i Noah,
Lle ceid pob flwch degwch da;
Nid oes heddyw ddim byw 'n bod,
Trwb waelod ond trybola.

Gwasgaredig ysgrudoedd,
Pwdrignawd; pob drewdawl budr oedd;
Dim glaswellt ar bellt y byd,
I gyd annhebyg ydoedd.

Ail ddechreu.

Prysurâ Noah o newydd—allan
I ddiwylliaw'r meusydd,
Mwch y dyrch cynnyrch gwinwydd,
A bara i'w fwyta fydd.

Wel yn wir er boddi 'r byd,
Ni foddodd y gelfyddyd,

Ardderchogion gyffion gynt,
 Amaethyddion mwyth oeddynt ;
 Cain seddan cynoesyddion
 Caf wychr hwy cyfochr a hon.
 Hoffai yr hen Achenedd,
 Hon uwchlaw bwa na chledd ;
 Dua Sinar a Haran,
 Yn swy swy o fan i fan ;
 Apis fu 'n dewis ei dir,
 Yn meusydd ffrwythlon Misir.
 Tra thelediŵ a diwyd,
 Llwyddiant a gawsant i gyd ;
 Amledd, digonedd a gaid,
 Doraeth, a chreaduriaid ;
 Y ddaear ddu a'i llu llwyd,
 Yn fraim a adferwyd.

Hen Genhedloedd Amaeth.

Bu yr hen weision bore yn Asia,
 Hynod dreiglyddion trin tir a gwledda ;
 Bu eu 'r mannoedd,—Diarbec, Armenia,
 Gilead, Saron, gwaelod Asyria.

Wele ogylch y byd i'w olygu,
 A'i bauau meithion heb eu hamaethu.
 Dacw 'r hen Gelliaid cywrain a'u gallu,
 Rhufeiniaid, Groegiaid, yn digaregu ;
 Chwysant, bliniant, wrth blannu—pob cyrion,
 Hyd fôr Gwerddon mae dyfrhau ac arddu.

Llafurwyr mwya ; pybyr meib Babel,
 Ymdaenasant i Midia yn isel ;
 Cadd Heber wastadedd, tuedd tawel,
 Mannoedd iachus a mynyddau uchel,
 O wllith mân, O lwythau mêl,—ddanteithion,
 Sy uwch Hermon, Libanus, a Charnel !

Trwy holl Asia, tyrau a llysedd,
 Pob dŵl addien, yn Eden adwedd,
 Dyrchwyl Eidal, benial ei banedd,
 Paradwys Ewrop brydus aurwedd ;
 A Phrydain gywrain deg wedd,—bob goror,
 I'r rhain yn eisor, hen iawn oesedd.

Ymdeithiasant, treuliasant arloesi,
 O bau Ararat heibio i'r Eryri ;
 Dacw iŵ Madawg hylaw yn medi,
 Llaur ydd Americ lle 'r oedd mwyari,
 Mesurant diroedd Missouri :—pwy ddyrch,
 I roi ail gynnyrch i'r Alegani ?

Deuai 'n gynharol dan Agenoria,
 Tlysau ac aeron mwynion Pomona,
 Nefol ddanteithion, breision Ambrosia,
 Ni bu cynhilweh yn Bacchanalia,
 Bacchus, Ceres dduwies dda,—i'w mygredd,
 Bu wiw orfoledd yn Ambarvalia.

Newid wyneb daear.

Trwy wradded orchwyl, neud tra ardderchog
 Mae 'r newidiadau mawrion odidog ;
 Troi disfaeth siniau yn barthau berthog ;
 Yn lle clogyrnau creigiau cerygog,
 Dwyn seddau cywrain, dinasoedd caerog,
 Tyrau, adeiladau tra dyledog ;
 Praff yw 'r ddylanwad, prif ffyrdd olwynog ;
 Troi y gwaelodion, a'r tir goleidiog,
 Yn feusydd, a pherthlenydd ffwythlonog ;
 Dwyn hafaidd lwythau trwythau toreithiog,
 Cau 'r anialweh cornellog,— yn froydd ;
 Dwyn gwneyd gwledydd dan gnydau goludog,
 Gwrteithio a threulio o athrylith,
 Eneinio clwyfau rhyffolltau 'r felldith :

Cawn ail gynnyrch, gwin, olew, a gwenith,
 Pob grawn addfed, agored, digyrith ;
 A pherlysiâu blodau blith ;—daear gron,
 Meillion o'i dwyfron, a mill yn dewfrith.

Y brif ffreythau.

Gardd Babel uchel lachar,—y triniad

Tirionaf o'r ddaear,

Canan a'i llifon cynnar,

Mêl a llaeth helaeth o'i hâr.

Draw mor brid amltra mawr brew,

Dwg aloes, ŷd, ac olew ;

Ic' r pabi a'r pubyr,

Casia, y manna, a myrr :

Mawr-wyrth orebyrth Arabia,—a phêr

Gyffyrion dwy India :

Y gensen a'r ddeilen dda,

Hwn sy bur yn Siberia ;

'Cheir braidd mo'i wraidd am ruddaur ;

Be' sy' well na 'i bwys o aur ?

Llawn yw 'r ddaear o'i lliwgar elleigiau,

O gŵyr, o felwn, ac aur-afalau ;

Gwiw aeron, enaint, ic, gronynau ;

Myrtwydd, pêr resinwydd, pob rhosynau.

Y môl iach nôdd, mêl a chmau,—meddygol

I bob angeuol wahanol heiniau.

Llyma brif ddoniau Prifon.

Dawn aruwch doniau yr Iôn ;

Pen gorchwyl pob hoengrychion,—eu duwies,

A eu hunbenes hen a'u banon.

Amaethau'r Enwog.

Amaeth yn nghwmniaeth Naf

Hyd ei ddydd ydoedd Addaf,

Rhifant yn arddwr hefyd,
 Cain ei fab yn y cyn fyd ;
 Noah tad y byd newydd,
 Amaeth oedd ef, mwyth i'w ddydd :
 Selyf, Uzzia eilwaith,
 Hoff gynt oedd ganddynt eu gwaith ;
 E fu i'r rhain, ddirfawr ri,
 Winllannoedd a pherllenni ;
 Ow ! nad yw 'n awr in' dau nyf,
 Lysieulen oleu Selyf.

P:ysigrwydd Amaethyddiaeth.

Ofer dwyn hanner henwau—'r llafurwyr,
 Holl fawrion bendodau ;
 Heb hon ni chawsai doniau,
 Na hyd ond byr hyd barhau.

Peryfiad pob prif waith,—canol y pwynt,
 Yn cynnal pob mawrwaith ;
 Por a phaladr praff eilwaith,
 Olwyn i gychwyn pob gwaith.
 Yr holl swyddau ereill suddent,
 Y gwybodau gwiw a beidient,
 Oll i angof ymollyngent,
 Heb Amaethad bawb y methent.

*Morwynion Amaethyddiaeth.—
 Eferylliaeth, Dysfais, Llongwriaeth.*

Y bedysawd, ei haddawd a'i heiddi ;
 Priod aelod o hon pob rhyw deli ;
 Mirain weinyddion, morwynion iddi ;
 Y gweithiau hynod yw ei gwytheni,
 Carenydd yn coroni,—ei harddwch ;
 Uchafu i thegwch a'i chyfoethogi.

Ychain a meirch chwai i'n mysg,
 Yr arddwr, porthwr a'u pêsg ;

Drwy Fferylliaeth y daeth dysg,
I arbed lludded dyn llesg.

Fwyned y ceir elfennau,
Yn weithwyr pybyr i'n pau ;
Un i yrru un arall,
A'r naill yn dirwyn y llall ;
Dŵr a gwynt i droi a gwau
Olwynion a melinau ;
Ategir hwynt i'w gwarhau,
A rhoir offer a rhaffau,
Tynnant codant mwy cedyrn,
Naw mwy rhyw chwai na meirch chwyrn ;
Ac wythwell maent yn gweithiaw,
Prysurach llyfnach na llaw ;—gweis diflin,
I drin eithin, dyrnu, a nitbiaw.

Drwy holl angorawl draul Llongwriaeth,
Dewr ei mawrhydri am Herodraeth ;
Yn drymion cnydau yr Amaeth,—o'r tir,
Uwch dŵr a gludir wech dreigladaeth.

Diamgen helynt, mae gynafiaeth,
Byd da 'n hilio, bywyd dynoliaeth ;
Ieuaint a henaint, di wahaniaeth,
Dir a ddiwellir drwy ddiwylliaeth ;
Huliodd ein byrddau 'n helaeth,—mor faethlon
Yw ei chynhyrchion, iach i'n harchwaeth.

Hen Amaethwyr Prydain.

Yn Mrydain firain yn forau,
Bu 'r amaethwyr bŵr eu moethau,
Cyn dylwythog genedlaethau,
O Omer oeddynt, mawr raddau.

Hu Gadarn, udd y giwdawd,
A'u dug yn ddi flug i flawd ;

Prydain oll i'w arfolli,
 Amor hawdd, i'w wabawdd, wi !
 Gwenodd, ymgynhesodd hi,
 Oblegid ei phoblogi ;
 Oll ar waith diwyllio 'r wig
 Yn Mrydain mae aredig ;
 Caffael pêr frasder ar frys
 O flaenion y Fêl Ynys ;
 Canol haf eu cyn wyl hen,
 Oedd eu cred yn nawdd C'ridwen.

Ymlid a wnaed pob milod niweidiol,
 Pryfaid ffyrnig, gwenwynig anianol ;
 Magu 'n lliosog, rhai angen llesol,
 Doli a noddi pob rhyw defnyddiol.

Llwynau fu eirwon oll yn fwyari,
 Yn ddaear lysiawl, newydd arloesi ;
 Tarddai 'n hawddgar yr heiniar o honi ;
 Eden ffriwlas, gwiw urddas ei gerddi,
 Bwriai llawnion berllenni—felysion
 Felysion aeron, 'falau 'n aneiri'.

Troi tud corsog, oer, brwynog, a'r bryniau,
 A phlanwydd tiffion, yn wychron ochrau ;
 Dreiniog, rygog, hen grugau,—i ddwyn ffrwyth,
 Bwrw rhywiawg-lwyth o ber-aroglau.

Diwylliaeth yn mynd wellwell,
 Gwerthfawr heiniar cynnar Coll ;
 Pob aeron, meillion, a mill,
 Yn llwyn o'r naill ben i'r llall.

Tirion famaeth, d'ai bradwriaeth,
 Hyf luyddiaeth i'w haslwyddaw ;
 Gan ryfelaeth, cadd gwybodaeth,
 Amaethyddiaeth, ei maith huddaw.

Drachefn da 'r drefn, wedi 'r drwg,
 Daeth diwylliaeth o d'wllwg ;
 Bugail, anifail un wedd,
 Ymborthant, ac mae berthedd.

Pawb yma sy 'u wychion, pob masnachaeth,
 Bydol lywiawdwyr, pob adeiladaeth,
 Ynt heirdd oll trwy ddiwylliaeth ;—i'n dyddiau,
 Yn ei cherbydau, nycha 'r wybodaeth.

Teyrnas cymdeithas doethion,—a'u conedd :
 Yw cynnyrch amaethon ;
 Dugiaid a dyledogion,
 Oll yw heirdd gyn-llywiau hon.

A'u gwiwglod briod wobrywau,
 Iawn y gweithiant anogaethau,
 Bywiog reddyf, yn mhob graddau,
 I ymgyrraedd am y gorau.

Ymryson am goron magwraeth,
 Cnydau daear-gnau, ydau odiaeth ;
 Tra mawrygu trem a rhywogaeth,
 Moddion da i wella diwylliaeth.

Nesid gwynob Cymru.

Cydoeswyr in' caed eisiwys
 Drwy 'n gwlad a deffroad ffrwys ;
 Argauir pob tir teryll
 Teg arddir y gwaendir gwyllt ;
 Pob bre, pob ceimle cwmlyd,
 A wnair i ddwyn gwair ac yd ;
 Cyn hir ni welir un wig,
 Na thudoedd anrheithiedig :
 Holir lle 'r oedd gwagdir gwyw,
 Ai gardd wen Eden ydyw ?

O fôr i fôr bob gorawr,
Dros Ferwyn, a'r Moelwyn mawr,
Pob tudwedd Gwynedd fal gwawr
Ymylau Clwyd a Maelawr ;

Gornchel ochrau 'r Gwrychlyn,—Eryri,
A'r Aran uwch Penllyn ;
Hell olwg Carn Llywelyn
A ddaw 'n dir hardd iawn drwy hyn.

Plannu Cord.

Rhy eirw i gwlltyr yw rhai gellydd,
I'w pilio, yno y dygir planwydd,
A brigog, cadeiriog y cwyd irwydd ;
A derw y dyfn-naint, orau defnydd,
A thwy hyn dau fwy a fydd,—i'w cysgod,
Afrifed filod hyfref hyd foelydd.

Poed o Fôn, yn dirion y deri,
Da lwynau tewion hyd lau Tywi ;
Ac o Dafwyse i Deifi,—ar wylltheirth,
Hyd oleu beneirth gwlad Albani.

Plannu, ac nid prynu pren,
Ymddiried mwy i dderwen ;
Na foed i goed nac ydau,
Angen yn un pen o'n pan ;
Na bo rhaid yn ebyr hon,
Prynu gan forwyr prinion.

Sychu Moroedd.

Mwy weithion yw Amaethwyr,
A ddaeth, ymyraeth â mŷr ;
Amrysawn, troi 'r môr isod
Yn dir yn awr, ydyw 'r nôd ;
Rhwng Eifion a Meirion mae
Rhagorgamp fur ac argae ;

Yma parwyd campwri,
Gwrth Cymro yn llochio lli',
Y dernyn gwaith cadarnaf,
I neb ei ddechren ond Nâl.

Ar fyrder triner y Traeth,
Ef a wnaer yn faenoraeth ;
Yr aradr a'i goreuro,
Uwch Clwyd offwrn bwyd y bo ;
Lle 'r a'i 'r morllo a'r eog,
Ysgrafed, rhwyged yr ôg.

Poed medelwyr, llofwyr llon,
Maeronwyr a'u morwynion ;
Yno boed mân-goed, fil myrdd,
A rhai preiflion gar prif-fyrdd.
Lle bu dyfelli' boed afellad,
Y diliau mêl, a dail mât ;
Yno y rhodio 'n rbedwyllt,
Yn lle môr-feirch meirch a myllt ;
Cain bo ychain a buchod,
Mal Eden bo nen y nôd.

Poed y ddawn yn gyflawnach,
Yma er budd mawr a bach ;
Deg o fath Madawg a fo,
A phraff waith i'w pherffeithio ;
Yna gwelir yn dir da,
Gwyndud mor hardd ag India.

Trem ar Gymru a'i golud.

Trwy fôr Gwalia, tro i fwrw golwg,
Tros grib Pumlunmon, hen ym'lon amlwg,
Ni welir dim anialwg,—diffeithwedd,
Hyd o fro Gwynedd i wlad Forgaunwg.

Edrych o gopa Idris,
Ar wedd gwâr Wynedd gor is ;

Ac o nen Bauwehdeni,
 Gwlad Ddeheu a'i hochrau hi ;
 Tremio y treulio a'r trin,
 O Gonwy i Frogynin ;
 Ac hyd ystlys Ynys Won,
 O Gaerefrog i'r Hafren ;
 Mor hardd y gwnaeth Amaethad,
 Bob bryn a glyn yn ein gwlad !

Hynod yn briod i'n bro,
 Yw ei moddion am eiddo ;
 O lin, gwlan, halen a glo,—yn helaeth
 Doraeth i'w cludeirio.

Rhydd hon i'w meibion ei maeth,—o'i bronau,
 Y bêr anwyl famaeth ;
 Gwinoedd yn llynnoedd a llaeth,
 Llufeiriant er llafuriaeth.

Ei chroth chwiliant, gorwygant greigiau,
 Effro ddiwyllir ei phriddeillau ;
 Trysorion ei thynion wythenau,
 Main o goluddion ei mŵn-gloddiau ;
 Da ledir ei delidau,—gwefr cadarn,
 Y pres a'r haearn, parhaus rywiau.

Rhyfedd anrhydedd pob angenrheidiau,
 Defnyddion di brinion da beiriannau ;
 Pob gwisgoedd cywrain, a glain foglynuau ;
 Yr ariant a'r bliant, cryb liwiau ;
 Er ei gymyrch i'r genau—yn helaeth
 Y caiff yr amaeth o'r eu offrymau.

Gerteithiau.

Cry' cair rhiuwedd y cerrig gorwynion :
 Golosgir, cerrir ar hyd pob cyrion ;

Crugo yn gymysg, cregyn a gwmon,
 Prynau a gwerthu pob rhyw hen garthion,
 Llundw a marliau llwydion,—prif faethau,
 Er dwyn pob cnydau 'n llwynau mwy llawion.

Cloron ac Erfin.

Trin cloron gleision eu gwlydd,
 Gyrru mwswg o'r meusydd ;
 Hau erfin a'u trin, nid trwm,
 Digoll, heb doll na degwm ;
 Gorfod a gwywo erfin,
 Ni all rhew, hyll waew 'r hin.

Cnau.

O weundir cynhyrchir cnau,
 I'r amaeth, gwerthfawr emau ;
 Bwrw yn lle brwyn a llaid,
 Afalau 'r anifeiliaid.

Newid Blodau.

Amaethiad da dyma dir,
 Hau meillion mwy a ellir ;
 Lle bu gawn, a phlu gwemydd,
 Daw dail, a llygaid y dydd.
 Er cael dan aradr ac ôg,
 Burŷd o dud gwlybyrog,
 Cloddio a rhwygo rhigol,
 Arwain dŵr o waen a dôl ;
 A diodi 'r sychdir sâl,
 O'r llynnoedd a'r lle anial ;
 Ail yn Eidal neu Eden,
 Neu ail swydd y Nilus hen.

Rhannu anghyfiawn.

Yn Mrydain, er mor odiaeth,—O gresyn !
 Yn groes i wybodaeth,
 Ni wadaf, gwelaf er gwaeth,
 Radd o wall ar ddiwylliaeth.

Naw heb ddim, hyn heb ddameg,
 Gan un lawn ddigawn i ddeg ;
 Hyd heddyw nid yw hyn deg,—cyfranner,
 Na chwyner ychwaneg.

Tosturier wrth yr Amaethwr.

Chwi ail seddawgwyr, uchel swyddogion,
 Rhai dilafur, mewn hyfryd welyfon,
 Da yw 'ch esmwythyd o chwys amaethon ;
 Ar y gwleddoedd cofiwch ei ryglyddon,
 O fonedd, byddwch swynion—ymddygiad,
 Parch o wir gariad pur rhowch i'r gwron.
 Dwyrewch, sylwch ar chwys ei aelïau,
 O loewed ei ddurſing wladïdd arfau,
 Ardwytho 'i anadl, brydio 'i wythenau
 I chwï gael llon newyddion neuaddau.
 Pob ambeuthyn, pob moethau—da beunydd,
 Iach i'ch yw 'r bwydydd, meirch, a cherbydau.

Y gŵr esgyrnawl mewn gwres ac oerni,
 Trabludd llin ddwy hin yn ei ddihoeni ;
 Gyrru troellawg, orfannawg garfenni,
 Trwy iâ neu gesair y trin ei gwysi ;

Gwella anghylfwr yr arddwr urddawl,
 Gwedi goluddio 'r gawod ogleddawl,
 Dawns yr uchedydd, donïau serchiadawl ;
 Una 'r amaeth, buroriaeth arwrawl,
 Yna dylfra dau fawl,—y geilwad,
 Dwyrea i siarad yn dra siriawl.

Gwestaith a Hin.

Pob moddion ddigon a ddwg,
 Mathau o wrteithiau teg ;
 Gwneuthur i haidd, gwenith, rhŷg,
 Dir da drwy 'r aradr a'r ôg ;

Tyfu 'n braff tew fon a brig,
 Cloron a meip, claurawn mäg,
 Iawn ddirnad rhin hin i hau,
 Yd, a gwair, a'r häd gorau ;
 Eu tarddiad ar dyfiad ir,
 A fwydir gan gafodau.

Perlysiâu Gerdd.

Goloewon yw gwelyau, — y garddwr,
 Fe gerdd yn mysg llysiâu ;
 A sawyr ber bwysiau,
 Hafaidd o hyd i'w foddhau.

Ganddo noddur, achlesir, gwych llysiâu,
 Rhag rhuthrau rhwysgawl, marwawldymborau ;
 Dialoedd hinoedd gaeafaidd heiniau ;
 Y grawn olewaidd ag eirian liwiau,
 Naturiol yn edrych, trwy lain wydrau ;
 Arno y gwenant, dirion eginau,
 Siriol wridog, resenog rosynau ;
 Prid yw y rheol, priodi rhywiâu ;
 I'w gain fyg sirain fagfâu, — cethleddawg.
 Y mae pompionawg, ampwy impynau.
 Meithrin pob ffrwythydd, diodwydd didawl,
 Cair meddeiddwin a phoethwin effeithiawl,
 Afalenlyn, dwys dilyn dysdyllawl ;
 Sudd melyn sfigys da i'r diffygiawl.

Misordd y Tyfu.

Wedi Ebrill waith dybryd ; — Mai hafaidd,
 A Mehefin hyfryd,
 Yr amaeth a rodia 'r hyd
 Ei dyddyn mewn dedwyddyd.

Medi. — coron blwyddyn.

Mis Medi o'r maes mudir
 Effeithiau gwrteithiau 'r tir ;

Pand ytyw 'r mis dewisaf,
 Drwy borth lwn daw 'r ebyrth haf;
 Coron blwyddyn dirion deg,
 O'i deuddeg y dedwyddaf.

Yna trafod tylodion,—ddiwrnodau
 I ddyrneidio 'r lloffion;
 'r plantos yn llios llon,
 Ymddengys tywys tewion.

Y Bwytauwr.

Ein hadar doffon wedi er difiant,
 Hyd y caeau, yllanau dilynant,
 At yr Amaethon y taer ymwithiant;
 Y cŵn mewn cŵr o'i lafur a lyfant;
 A'r moch yn groch hagr wichiant,—rhaid estyn
 Yr llyn a berthyn i'r rhain o borthiant.

Pob bucich gwael legeich i'w golygu,
 Un modd bonedd arno 'n ymddibyynu,
 Gwyr mawr oddiarnodd gryn i'w orddyrru,
 Rhai bychain isod, trwy bych yn ysu;
 Yr Amaethon galon gu,—glan wyneb,
 Pybyraidd i ateb pawb o'r ddeutu.

Heidiau crwydrawg gwasgarawg segurwyr,
 Y rhai lledrithiog, a'r llywodraethwyr,
 Galw i feddwl bob rhyw gelfyddwyr,
 A'u moesau yn wychion—y masnachwyr;
 Ie, 'r llenorion, a'r llun aerwyr,
 A rhifo a alwyd yn rhyfelwyr,
 Holl fawrwaith y llafurwyr,—sydd ddiball,
 Er rhoi bywyd diwall i'r bwytauwr.

Amaethon boddlon, yn bur,—a'i ddwylaw

Yn ddilesg mewn llafur;
 Gresyn fod gormod o'i gur;
 Er dwyn saig i'r dyn segur.

Mae bwytafwr, meib tewion,—yn trwytho
 Eu trythyll goluddion ;
 Golwythaw eu bolian glythion,
 Byw o'r brasaf, heibio 'r briwsion,
 Gormodedd gwrw a mwydion,
 Gosiglant megys Eglon ;—eu hangau
 Ddaw o'u moethau, eiddo Amaethon.

Grymusdei Gwyr y Meusydd.

Estyn buchedd oes dyn bychan,
 Trwy swyn gariad dra fo 'n geran ;
 Y diwyllwr diwyd allan,
 Draw sy bybyr dros y baban.

O daw galon eon mewn awydd,
 Gwyr bygylog o gwrr bwygilydd,
 Pwy chwimach fywiocach fydd ?—pwy ddewr-
 ach,
 Na grymusach, na gwyr y meusydd ?

Amaethyddiaeth yn lle Rhyfel.

Ond pob mwynder a weler i Walia,
 Bendithion fil ar epil Europa .
 Aed mwy wythwaith o'r byd i amaetha,
 Llauer rhyw filwaith lai i ryfela ;
 Hoff disgwyl dyddgwyl mawr da,—o degwel,
 Heddyw, llonyddwel i holl lin Adda.
 Trwsia mwy o erydr tros y moroedd,
 Trwy hen Asia pob twrr o ynysoedd ;
 Pair borth i bob rhyw barthoedd,—eu gwala,
 Digon o fara dwg i'w niferoedd.

I dorri tiroedd yr hen Dartaria,
 Lle mae 'r dynion yn hyll ymrodiena,
 Am eu cynaliaeth, fal mae ci 'n hela ;
 Neu chwannog chwai lwynog yn chwilena ;

Ow! y rhai'n druan, O mor dra—dwfyn
Yn mhob anoddyn yw meibion Adda.

Aed i wiw ddiffwrth, dueddau Affrig ;
Annymorawl gyfliniau Amerig ;
Mewn anialwch a manau anelwig,
Mae Paradwys a Themp i'w haredig :
Yno fal trawsflod trig—dynoliaeth,
Heb iawn wybodaeth, byw yn wibiedig.

I'r rhai a faethir mewn rhyw fythod,
Heb west felus, mwy na bwystflod,
Da fydd tremio yn dyfod,—i'w byrddau,
Y bara gorau, hir a gwirod.

Drwy gyrrau daear, aed i'r gwyr duon,
Undeb, doethineb, gwybodaeth union ;
A gwiw bib addysg, pob gwybodyddion,
Fwyfwy golau, yn mhethau Amaethon.

A bi yn brysur, i'r gloewddur gleddau,
Cywrain sy awelus, eu curio 'n sychau ;
A gwaewffyn mwyn i'n goffhau—cyn hir,
Heb lid a yrrir, ie, 'n bladuriau.

Er mawrhydri pob rhyw ymerodraeth,
Y bu wyr dewrion, am eu bradwriaeth,
Gorthrechiant a llwyddiant eu llwyddiaeth ;
Ar fyrr e yrrir arfau aerwriaeth,
Offrymir yn offer Amaeth,—ffrystio,
Amen, Duw wnelo er mwyn dynoliaethi.

Yr hafddydd sydd yn neshau,
Blaen nawdd y Fil blynyddau ;
Cenawon yn cynniwair,
Yn mysg ŵyn, drwy 'r maes a gair :
Y panther a'r teiger tew.
Llawn gwarder, llon, ac irdew ;

Ydd Awen ni wna 'n ddiau,
 A gân i hon ond gwanhau ;
 Arwyrain i orwireb,
 Wychraidd nôd, ni chyrraedd neb :
 Rhy danbaid i'r llygaid llwch,
 Ydyw 'r gwawl a'r dirgelwch ;
 Gadael hon i gyd lenwi,
 Dawn awdwyr ei hoeswyr hi.

J' Segurzer.

Oferwr ni lafuria,—a'i ddwylaw ;
 Ni ddilyl chwaith fwyta ;
 Os yw gwr yn segura,
 Ni fydd o un defnydd da.

Bara y Bywyd.

Er llafur prysur, bob pryd,—myfyriwn
 Am fara y bywyd ;
 Bo llafur diball hefyd,
 Iawn am hwn ynnom o hyd.

Dwy ddawn Barid ac Amaethon.

Dwy ddawn oeddynt gyllawn gynt,
 Yn Eden yr hanodynt ;
 Prifon da Adda oeddynt,
 Ac i'w bâd ef cyhyd ynt.

Minau 'n arab, o'm maboed,
 Rhwng y ddwy yr wy' erioed.
 Dygaf brif-enwau digardd,
 Amaethon boddlon a Bardd.
 Mynnai awen am ennyd,
 Fy nghael i'w gafael i gyd :
 Eithr mwy rhwng y ddwy ydd âf,
 Hyd y bedd, a da byddaf :
 Ar alwad yna 'r elwy'
 I fro mawl heb lafur mwy.

ELUSENGARWCH.

"Gwyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd : yr Arglwydd a'i gward et yn amser adfyd."—SALM xli. 1.

"Y neb a gymero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoi ddi echwyn i'r Arglwydd ; a'i rodd a dâl efe iddo drachefn."—DIAR. xix. 17.

"Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Os ewyllysi fod yn berffaith, dos, gwerth yr hyn sydd gennyf, a dyro i'r tlodion ; a thi a gei drysor yn y nef ; a thyred, canlyn fi."—MAT. xix. 21.

"Crefydd bur, a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad, yw hyn ; Ynweled a'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd."—IAGO i. 27.

Farnydd, darlennnydd dewr llon.—ymholydd
Am helynt Prydyddion ;
Edrych y gerdd, hir-gerdd hon,
Gwanafau GWYN O ERFON.

I' Gwaith.

EIRIAU Elusengarwch ;
Pob paladr yn lladr a llwch,
Mae plyfyn i'm palf yn awr,
Cof-adail fawr cyfodwch.

Trem ar wrthrychau Elusen.

Gwel yma, O golomen,—cain feindŵr,
Cwynfandy yr angen ;
Golwg iawn, amlwg, o'i nen,
Ar lysoedd yr Elusen.

Gwel dylodion, a gwael adeiladau ;
Gwragedd, plant, a thrichant o wrthrychau ;
Amddifaid, gweddwon, wareiddion ruddiau ;
Un a dyn bychan yn dwyn ei beichiau ;
Dyn feichiog, lwydion fochau,—mewn angen
Gweled Elusen dan gelyd loesau.

Lluoedd ar luoedd ar welyau,
Rhwyng cilddaint echrys-haint a chroesau ;

Holl awch dannedd y lluchedenau ;
 Chwerw frewyll, flengyll, a phla angau ;
 Gau anghenion, cwynion yn cynnau ;
 Elusen deimla 'u heisiau, — a'i chynnes,
 Garnaidd fynwes, eu griddffannau.

Tarddiad Angen ac Elusen.

Pechodau, a chwypm chwai Eden— a'u dug
 I dagwm yr angen :
 Yn rhodd anfonodd Nef wen,
 O law Iesu Elusen.

Elusengarwech.

Disgynnodd Duwies gwiwnef,
 I'n daear ni, do, o'r nef :
 Llysoedd brenhinoedd heini
 Islaw ei holl sylw hi.
 Chwyddai serch y Dduwies hon
 At aelwydydd tylodion ;
 Agor o'i thrysor wrth raid,
 A'i rannu i drueiniaid.
 Ni lysir, gan Elusen,
 Un cnawd, yn ieuanc na hen :
 Edwyn eisiau dyn isel,
 Yn hen a gwan, hon a'u gwêl :
 A gnawd i hon gwneyd, o hyd,
 Hen elyn ei hanwylyd ;
 Dau anwylyn dynoliaeth,
 Brawdyn a gelyn, nid gwaeth.

Haelioni Duw.

Haelionus i'w elynion
 Euog a drwg, ydyw 'r lôn :
 Bod, einioes, pob daioni,
 A roes Nêr, o'i ras, i ni :
 Pob peth yn ddifeth, hyfwyn ;
 Rhoi ei un Mab er ein mwyn :

A mwy braint, y Mab a roes,
Do, in' ei waed a'i einioes.

Rhoun i Dduw.

Ninnau, na fyddwn anhael,
O'i eiddo 'i hun i Dduw hael
Mor hawdd, yma yw rhoddi,
Rhoddion Iôn yw'r eiddaw ni.
Yn awr, ai rhoi mawr im' yw?
Na, dylêd, neu dâl ydyw.

Plant Duw

Dadleudy i dylodion,
Ei dŷ sydd, pwy dawai sôn?
A rodder i'w rai eiddil,
Llesg, mân, lliosoga mil;
Ei blant Ef, a'i bobl ynt hwy;
Dibrin rhydd eu Tad wobrwy.

Pan yw blew gwallt pen ei blant—o dan rif,
Da in' roi eu porthiant;
Eu galw, cyn hir, gwir, a gânt,
I giniaw y gogoniant.

Delw Duw ar dylawd wr.

Gweld brawd ar ddelw 'Nghreawdwr,
A delw Duw ar dylawd ŵr;
A chofio 'nhlawd Iachawdwr,
Fu un dydd yn gofyn dŵr,
A enynna, yn uniawn,
Fy nhymer dyner a'm dawn.

Hanner yr eiddof, yn awr, a roddwn;
Ac heb ail wrtheb, y cwbl a werthwn,
I roi yn hael er enw Hwn :—teyrnasoedd,
Llawnder y bydoedd oll, nid arbedwn.

Rhoi o hyd yw 'nryd a 'nraint ;—daioni
Yw nad wn ogyaint :

Dwyn iawn serch dynion a saint,
Dan deimlad cariad ceraint.

Brodyr o'r un bru.

Mewn ystyr, brodyr o un bru ydym ;
Ar y cyntaf, yn Addaf, un oeddyn :
Ni, i gyd oll, un gwaed ym,—yn ddiddadl,
Un enawd ac anadl, ac un Duw gennym.

Yn amodau hunanymwadiad,
Caed amod amlwg cydymdeimlad :
Cyrraedd deheulaw cariad—i bob dyn,
Pe b'ai yn elyn :—pawb un alwad ;

Pe 'r Tyrciaid, pe 'r Awstriaid, pob rhyw estron,
Pe b'ai wael alltud o blith pobl wylltion ;
Arddel pob Gwyddel a gwiddon,—cofiwch,
Er bod dyngarwch, trwy 'r byd, dan goron.

Porthaf bobl o bob parthau,—a byddaf
Yn porthi nesaf perthynasau ;
Rhoi i'r rhai bach, ar air byrr,
Cu frodyr eu cyfreidiau.

Ystyriaf, teimlaf at ham—hen wraig glaf,
Hen wr cloff, ysgwyddgam ;
Helynt gwrach legach, law-gam,
Mal ethryb modryb a mam.

Feythr Wiliam.

Fy nwr hallt yn ddafnau rhed,
Uthr weled f' ewythr Wiliam ;
Mamau, hen neiniau anwyl,
I'r drysau, mewn eisiau 'n wyl ;
O 'r hen wr, mor druan yw !
Fy hen daid, fy nhad ydyw :
Troednoeth, a phen-noeth, a'i ffon,
A'i gydau dan fargodion.

Gwgan oedd, nid gwag o nerth,
 Ac arno wir ddelw Gwernerth ;
 O gynheddfiau gweinyddfawr,
 Cyrus, Ahasferus fawr,
 Be 'n eistedd yn Senedd Sior ;
 Ef i'w chanol Fai 'i chynor ;
 Ac i'w deyrnben, cadarnbwynt
 Y lluniai hi 'n well na hwynt.

Nid oes yn nau Dŷ y Senedd—ei well ;
 Ow ! O ! mae 'n beth rhyfedd
 Na wnaed hwn yn ynad hedd ;
 Neu frenin o fawr rinwedd.

Ond yn lle hyn, adyn noeth,
 Dan benllwydri, byw 'n llednoeth ;
 Syndod, rhyw Alecsander
 Mawr fel hyn ; Ow ! mor aflêr !

Ac yn lle nodwisg o gynlluniadau,
 Eurwisg, sidauwisg, ac ysnodenau ;
 Urddedig arwyddiadau—coneddus ;
 Dyma 'n had Brutus a dim ond bratiau.
 Nid oedd byddinoedd ei ddoniau—helaeth,
 Nemor wasanaeth mewn ymrysonau ;
 Ond erydr a philaduriau,—oedd destyn
 Ei ddawn ; ac wedyn i ddwyn y cydau !

Flodion Gwynedd.

Henaint a ieuaint teg wedd,
 O ganol Llwythau Gwynedd ;
 Rhai 'n hannu o frenhinoedd ;
 Am gardawd o flawd rhofl floedd.

Flodi rhianedd.

Rhianedd, rhai o honynt—lun boddiawl ;
 Delw ein Buddug arnynt ;
 Ac Elen deg, addien gynt
 Lueddog, a hil iddynt.

Tlodi plant.

Rhosynau blodau o blant—yn edrych
 Yn odrist, ar ddislant ;
 Eu rhinweddau, gorau, gant,
 A hwy 'n ieuainc, hen wywant.
 Gwel lwyd-foch ag ol adfyd ;—ac arwydd
 Mai curio mae 'r ysbryd ;
 Gwanychu, dygngnoi iechyd ;
 A dwyn gwedd y dyn i gyd.
 Prinder a phob rhyw wendid,—a'u malant
 Rhwng ymylau gofid ;
 Gorthrymder, llymder, a llid,
 Ac anhunedd cynhenid.

Cydymdeimlad Elusen.

Hwy wyneblwydant yn eu blodau :
 Gnawd i'r anwydog wneyd oernadau ;
 Gwel Elusen, ac a glyw leisiau,
 Eu hoch'neidion a'u tuchaniadau :
 Er achub ei gwrth'rychau,—goebrwydd
 Y gyrr ei dedwydd, anwyl gardodau.
 Arddengys ei bŷs bob eisiau ;—estyn
 Ei llaw, i'r adyn, ei holl wir reidiau.
 Ei threfniadau, wrth reolau ;
 Yn ei cheisiau, iawn achosion :
 Cyfraniadau, wrth fesurau,
 O'i delidau, i dylodion.

Sefydliadau Elusen.

Saif hyd wledydd ei hen sefydliadau ;
 Manteision di brinion, hyd wybrenau ;
 Ac nid yw pob gwiwras Gyndeithasau,
 O'r Fam a'r Fanon hon ond canghennau :
 Golygir y prif golegau—mal hen
 Erddi Elusen o iraidd lysiau.

Athrawon Elusen.

- Mae 'n addas im' unwedd son,
Athrawon gwiw a thrywel ;
- Mae Pindar a meib Handel,—wrth natur,
Gwerth Newton a Herschel ;
Mae Olen a Galen, gwêl,
Yn y drysau 'n dra isel.
- Rhai o ddefnydd rhyw Ddyfnwal ;—ein Tydain,
A'n Tewdwr dibafal ;
Llyuddwyr, rhyfelwyr fal
Caradog, a'r cawr Idwal.
- Yr un o fil, o'r rhain f'o
Yn ei choleg yn chwilio,
Acw â yn falch cyn ei fedd,
I wasanaeth y Senedd ;
Ar ei thraul, mawr a thrylen,
Megys gwr llys a gwr llen ;
Y sy 'n awr o'i oes yn ol,
Athraw fydd, doethi ryfeddol.
Dyfnnydd, beirniedydd noeth ;
Chwaleddart treithiau uchelddoeth :
Oni bo 'i ddoethineb ef
Uwch ben Sulien a Selef ;
Gwel ffaeidd Gil a Ffwler ;
I wŷr mal hwynt rhoi aml herr.
Bydd miloedd, oesoedd isod,
Yn tynnu at ei iawn nôd.
- Ys iawnddoeth Elusenddysg—i'w choleg ;
Uchelion wyr mawrddysg ;
A thra ynddynt athronddysg,
G'ronw Môn gair yn eu mysg.
- Pobl dron, lwydion, ddi oludoedd ;
Eithr ydynt mewn ffydd a gweithredoedd.

Yn oludog, gyfoethog fythoedd ;
 Cyn hir, eneinir hwy 'n frenhinoedd ;
 Tro nesaf, ca'nt deyrnasoedd—i'w mwynhau ;
 Heb naw s o eisiau :—byw 'n oesoesoedd.

Lot a roddodd lety, o'r eiddo,
 I engyl nef ; haddef yw iddo :
 Mwy 'r fraint a'r haeddiant i a'i rhoddo,
 I'w brenhinoedd, heb arian, heno.
 Cardotyn, bid cariad ato ;—weithion,
 Mynnodd y breision ym yn ddibrisio ;
 Cardotyn fydd, cred eto,—yn nheyrnas
 Duw, a deg dinas odidog dano.

Rhoi bwyd sy' well na'r bydoedd—i fagu
 Pendefigion nefoedd :
 Groesawu gwyr sy' ar goedd,
 Fry 'n eu henwau 'n frenhinoedd.

Elusen a Degwm.

Darbodaeth Awdur bydoedd,
 Wrth ei air a'i gyfraith oedd :
 Ordinhad, ni roed o nef,
 Fwy diddadi i fyd addef.
 Pennod heb raid esponiaw ;
 Amlwg ar bob llwg a llaw.
 Hen Feibl, a hwn o'i faboed,
 Sydd dros yr achos, erioed ;
 Yr Iubili ar ei blaidd ;
 A degwm, dâl bendigaidd ;
 Tâl ydoedd i'r tylodion ;
 A thâl at wasanaeth Iôn.

Duw a'r gweiddwan.

Ys dyunwyd ei hachos daionus,
 A'r dwyfawl, gynaddawl gogoneddus ;
 Am hyn rhaid addef mai arhydeddus,
 Yw gwneuthur Elusen i'r anghenus :





Y Gwernidwr.
"Am y mac yn temlo mao
Yr awel ar ei gwng."

Hynod mor anghydmharus—cymdeithion,
Duw mawr a gweddwon llwydion, trallodus.

Ni ddichon y ddau achos,
O barth anwyl berthynas,
Wahanu byth ; ni bu os ;
PAr ydynt mewn priodas.

Ysgrifen Moesen.

Israel a gadd brif addysg,
Ysgrifen Moesen i'w mysg ;
Duwiolion pob ardaloedd,
Eu bri, a'u crefydd bur oedd :
Siob, wr gwiw a syberw gŵd,—a chwiliai
Gwynion na wyddai, a gwnai nodedd.

Dysgeidiaeth Crist.

IESU, pan ymddangosodd,—wir Athro ;
Ei hethryb cyfnerthodd :
Efengyl ni chyfyngodd
Ar hon, mewn un rhan na modd.

Nid lloffion, nid cyrion cae ;
Maes y rhan a mesur hwy :
Nid wrth lén Moesen y mae ;
Cariad Samariad sy mwy.

Iawn y dysg im, “ Dos a gwerth—a feddych :
Dod wirfoddol aberth,
I'r tylawd un gnawd, gwan nerth,—newynog,
Anwydog, ofnog, hen, digyfnertth.

“ Ac o cheri Iesu Grist fel Cristion,
Amlyga dy gariad i'r tlawd gwirion :
Edrych am anwyl gadw ei orch'mynion ;
O gwnei ryw giniaw, gwna i rai gweinion ;

Ac nid rhai goludog, cyfoethogion :
 Nid cyfarch a gwneyd cofion ; — ond gweithred :
 Rhoi tirion nodded i'r truain weddwon,

“ Ac with weithredu 'n ddi goll,
 Na udgana ; dyma 'r dull ;
 Boed na wypo byd, nepell ;
 Ie, naill law a wuel llall ”

Yn y dirgel, gwel Duw 'r gwaith, — lle byddo,
 A mawr ei foddio mae 'r ufuddwaith.

Cardodau y credadyn,
 A'i arlwy hael ar ol hyn,
 I'w ddilyn a ddaw ailwaith.

Nid iaspis, aur, a grisial ;
 Ni bu ariant na beryl,
 A ro'er i'r tlawd, dydd brawd dâl,
 Ei ddangos i wydd engyl.

Crist pan ddél, arddel, mewn urddas, — y
 gwaith,

Ar goedd y tair teyrnas :
 Ac am weini cymwynas,
 Bydd mawr wobrwy, drwy râd ras.

Gwobr Elusen.

Tlodion y'nt deulu da Nâf,
 Llios o'i frodyr lleiaf :
 A weinyddo un nodded,
 I'r rhai'n a ga' orhoen gôd :
 Yn y ne', dyle dilyth,
 Mamon yn gyfeillion fyth.
 Cânt ogoniant digynnen,
 Teyrnas, gwych balas, uwch ben :
 Y'ngwawl anfeidrawl nef wen ; — coronau,
 Gemau a thlysau o waith Elusen.

Y rhai yn awr a heuant—eu maesydd,
 Dim eisiau ni welant ;
 Os i'r bedd, ar ddiwedd ânt,
 I fedd adgyfodant ;
 Myned i fyd y mwyniant,
 Y' myd y nef medi wnant.

Byw a Marw'r Cybydd.

Ond garw, Ow ! mor welw awr marwolaeth,
 Ydyw y sennwr diwasanaeth,
 A roes ei ariant ar usuriaeth ;
 A gado 'r tlawd i gydiaeth—mewn trychni,
 A dir galedi ei dreigladaeth.

Yn ei liain main, mynnai
 Fyw 'n foethwych, dan fynych fai :
 Llidiodd wrth bob llwydaidd ddyn,
 Yn ei ddrysau 'n ddi resyn ;
 I ddwyn dim oedd yn ei dai,
 Ni thyciai gair na thocyn :
 Rhoi i'w gŵn, ar ei giniaw ;
 Ond dal y trist ddyn tlawd draw.
 Ymhyllai, dwrdiai bob dydd,
 Cernodiai eu cornwydydd ;
 Dydd y farn gadarn, ar goedd ;
 Eithradwy y gweithredoedd ;
 Duw a rydd ei dir a'i waith,
 A'i hen eiddo yn oddaith ;
 A bydd yr hen gybydd gau,
 Yn eu canol yn cynnau ;
 Ei dda, am fyth, i ddim fydd,
 Ond i'w enaid yn danwydd.
 Nis gwnaed gwisg i'w enaid gau,
 Na 'i gorff llwm, ond gwaew 'r fflamau.

Ni cha' yntef yn grefwr,
 Byth yn ei safn ddafn o ddŵr,
 I oeri tafod eirias ;
 Dloted fydd y cybydd câs.

Crist a'r Cybydd.

Crist ni fyn ei ddilyn, na 'i addoli,
 O fyddol annyn f'o di haelioni ;
 Gwel adyn dan galedi,—a'i dda maith
 I'w dynn goffr ; ymaith âi dan gyllromi.

Yr Eglwys Fore.

Blodeuog bobl Iudea,
 Oblegid erlid, eu da
 Cyffredin, coffhair, ydoedd ;
 Oll eiddynt, rhyngddynt yr oedd.
 Annhrefn y swydd hylwydd hon,
 Ataliai 'r apostolion ;
 A'u gofal er cynnal, caid,
 Gwragedd gweddwon y Groegiaid.

Casglu a threfnu, wrth raid,—eglwysig
 Elusen i'r gweiniaid ;
 Tyst hoff in' gynt, Stephan gaid,
 Deg gynor diaconiaid.

Pa sut, eilwaith, mae 'r apostolion,
 Ag eirch eu miniawg orchymynion ?
 Yn ol y rheol bur hon,—hyd heddyw,
 Cyfartal ydyw cofio 'r tlodion.

I'w plith rhoi Paul athrawus
 Dragwyddol reol ddi rus.
 Cardotai 'r cywir Ditus,—trysorydd
 Oedd, a chasgliedydd i'w hachos clodus ;
 Bu'r mād Ganwriad, yn wir,
 Wâs cywir, a Zaccheus.

Daew 'r anwylyd Cornelius— drugarog ;
 A'i feddwl enwog, ufudd, haelionus ;
 Swiodd ei Eluseni,
 Hyd nef, y'nglustiau 'n Duw ni.

Os cair, funudyn, eu 'sgrifeniadau ;
 O mal y soniant am Elusenau ;
 A thaerion yw 'r llythyrâu,—heb ffuant,
 O un rhyw siomiant yn y rhesymau.

Elusen anfeidrol Crist.

Ys Crist, yn drist, dan boen drom,
 Fu o'i rad ras farw drosom ;
 Gwael na roem, o galon rydd,
 Ein golud dros ein gilydd.
 Gwiliwn ddrwg galon ddi ras,
 Annuwiol Annanias.

Elusen yn teithio o'r Dwyrain.

Ei gwybodaeth helaeth oedd,
 Acw yn Asia 'r cynoesoedd ;
 I Frydain, o'r Dwyrain, daeth,
 Ar ei thro, yr athrawiaeth.

Cyrraedd Prydain.

Ac yn ein Prydain wen, gain, ogoned,
 Gwladychodd, hydreiddiodd, a chadd
 drwydded ;
 O drysor llawn, drws ar led—oddentu,
 Lle i wasgaru a llys agored.

Cyn cred, ddeheuod oedd hon ;
 O'i thu 'r oedd doeth Dderwyddon ;
 Ond, er dawed cred, cair hi
 Trwy 'r Gair yn tra rhagori.
 Cydsynio caed y Senedd,
 I'w choroni hi mewn hedd ;

A chai le yn uchel lŷs
 Brenhinoedd bore 'n hynys ;
 A'i baniar uwch Unbenaeth
 Holl lŷs yr Ynys fawr aeth.

Ein gorhaelion fawrion annifeiriawl ;
 Mordaf a Nudd, hen Gymry detnyddiawl,
 A'n Rhydderch yn orhaeddawl—o'n cofbau ;
 Cu iawn yw henwau 'r fath wyr cynhwynawl.

Cariad Prydain at Elusen.

Moliannwyd, am haelioni,
 Ein tad Naf, a'n teidiau ni ;
 Dyngarwyr dynion gorhael ;
 Cofier hyn, ac Ifor Hael,
 O bydded i bawb addef,
 Filoedd o'i hefelydd ef.
 Mawr yw meib Cymru, a'i Môn ;
 Mwy na Rhydderch mewn rhoddion :
 Lliosawg bob lle, eisoes,
 Yw mawrion haelion ein hoës :
 Dyma wyrda, had Mordaf ;
 Heidio o ne' mae had Naf.
 Ys cryf fu Selyf a Siob,
 Mae 'n awr wŷr mwy yn Ewrob.
 Rhannu 'n awr, yn aneirif,
 Mae cynrain y Brydain brif :
 Talent ar dalent yw 'r dylif ;—fŷrting,
 Hadling ar hadling yr ehedlif.

Dyngar, Elusengar swydd ;
 Gwiwddrych boneddigeiddrwydd.
 Yn yr Ynys wen, ariannog,
 Hael, gywreiniawl a gorenwog,
 Tai Elusen y'n't liosog ;
 Onid ydynt iawn odidog ?

Didrai rhy' rywrai arian,—ddigonedd

I gynnal y cyfan :
Di gyrrith fendith i'r fan
Lle deillio, o hyd, allan.

Adnoddau Elusen.

Syndod, bob Elusendai !—
Ba fath draul, ac heb fyth drai !
I'r rhai'n, ba seilfain, be sydd ?
Neud y mwnai 'n domenydd.
Prif fwn-glawdd cudd, hawdd cadd hi,
Cyfnerthydd, neud cefu wrthi ;
Gwythen oedd, gwaith iawn addef,
A'i phen anorffen yn nef,
Ar draul hon, rhodio ar led,
Ac arddelwi gorddyled ;
A dreuliaw daearolion,
Ni leiha gornelau hon :
Ni dderfydd nawdd ei harfoll,
Pysau Duw ; pa arswyd oll ?

Pres fwmai Paris Fynydd,—aur Periw

Eu parhad a dderfydd :
Rhad hon, heb unon, beunydd,
Yn fwy fwy o nef a fydd,

Duwi'n Drysorydd.

Daioni a dywenydd,
Ail i'r haul a'i oleu rhydd :
Y Duw da fu 'n gwneyd y dydd,
A'r twrr ser, yw'r Trysorydd ;
Efe a lywia 'n ddi lŷs,
Ei waith oll, wrth ei 'wyllys ;
Mewn munud, man y mynnawdd,
Y dŵr yn win a droi 'n hawdd.
Trumau Ewrob, creig bro brid

Eryr, gwnai 'n fyrerid ;
 A'r clai 'n fwnai neu fânaur,
 Ail i Beriw lwybrau aur.
 Anian fawr a wna 'n forwyn,
 Ednod a physg dysg i'w dwyn.
 Pŷydd aur ac epaod,
 Ac oll a fu, ac eill fod ;
 Y ddaear yw eiddo 'r lôn ;
 Holl nwyfau, a llu Neifion ;
 Lloer, a'i nwyfau, llu 'r nesoedd,
 Eiddo y cwbl, ddaw ac oedd.
 Ei radau ymddiriedodd,
 Dan eu rhif, Duw in' a'u rhodd ;
 Nid ein heiddo ni ydynt,
 Ei eiddo Ef heddyw y'nt ;
 O'i drysawr gwerthfawr ar g'oeedd
 Torrwn eisiau teyrnasoedd.
 Na chynilweh, anwylyd ;
 Tâl Duw gôst y tlawd i gyd.

Treth deg Elusen.

Ni bu annoeth Unbennau—ein Hynys ;
 Ni honnwyd gwrthdoddeddfau ;
 Rhoad i'r hyn y perthyn, pau
 Prydain, a'i darpariadau,

 Talaïd hawl y tlawd yw hon ;
 A threthir ei thir weithon ;
 E dretha 'n Llywodraethydd
 Bob cwys o'n Paradwys rydd.

Elusen Sior y Trydydd.

Rhaith Duw lor a'u Sior ni sydd—yn union
 Un goelion a'u gilydd ;—
 O blaïd y tlawd, a flawd flydd,
 Y troedia Sior y Trydydd.





CROSFORD MAUGHAN.

Y Sior uchelwaed sy' or'ehwylwr
 Ei dylodion, a'u da lywiawdwr ;
 Ymgefedd gorsedd y gŵr—i'w faon,
 Wna glod i goron ein gwladgarwr.

Ie, 'i dylodion, ei deulu ydynt ;
 Parodd eu harddel, dirprwyodd erddynt ;
 Boneddion bawb o naddynt ; — cyfreithwyr
 Rhôl, a'n seneddwyr yn weision iddynt,

Gweddli dros Sior a'i deulu.

Ein cynor Sior, ar ei seddl,
 Adfero Duw ei fawredd
 I'w iechyd, a'i fywyd fo
 Ddyddiau hedd i'w ddyhuddo ;
 A'i had a fo hyd y farn,
 I'n eiwdawd yn ben eadarn :
 A chorff y wlad yn wychr, llweli,—dan dirion
 Loew, iesin goron Elusengarwch.

Nid degwm, ond digon.

O'r degfed bu gŵd pob gwan,
 Ac anghenog, y' Nghanan :
 Ond gwyddys, i'n Hynys hon,
 Mai nid degwm, ond digon.
 Rhoir digon i weinion wŷr ;
 (Mae'r degwm i'r diogwyr ?)
 Rhyw deyrnged ddi rifedi ;
 Cyhyd a'r rhaid codir hi,
 Dreth ddinae ; diwrthwyneb
 Aerdreth, o flaen ardreth neb.
 " Ai hwy " ('n fwyn, un ofynnai,)
 " Yw arglwyddi'r tir a'r tai ?"
 O ! 'n awr, dedwyddach i ni,
 A chwe rhwyddach yw rhoddi :
 Hau 'n helaeth, helaeth â hi ;

Gwyn-fyd yn nef gawn feddi :
 Rhoddi wna drysori sail,
 A chodi goruwch adail.
 Rhyw ddyn a wasgarodd dda,
 Gai 'chwaneg, o echwyna.
 Pa fraint sy cymaint, os caf,
 Roi echwyn i'r Goruchaf?

Ac heblaw hymny, y cwbl a henwyd,
 Pa faint o ariaint eto a yrrwyd
 O Frydain, pan ddifrodwyd—taleithiau ?
 Am Elusenau hon aml y soniwyd.

Frydain a'r gorthrymedig.

Pan fu goruthrau, taranau trinoedd,
 Yn taro 'n isel iawn y teyrnasoedd
 A draws-feddiannid gan drais-syddinoedd,
 Mawr, O ! 'r dolur gai amryw ardaloedd.
 Draen du i lawer dirion deuluoedd ;
 Troi 'n ffoaduriaid, drwy anflawd yrroedd,
 O'u cyfaneddau acw i fynyddoedd ;
 Aberthai Brydain lydain oludoedd,
 Blaendorrai eu blinderoedd :—bendithion
 Y truenusion ddont arni oesoedd.

Caethiwed, llaw galed, lle y gwelai ;
 Gerwin lymder, croch oerder carchardai ;
 Yn dosturus, arwylus eiriolai,
 Ar ran y dinerth, er nad adwacnai :
 Casglodd, anfonodd fwnai—i'w gwared ;
 Hoew law-agored, a hael y gyrrai.

Ac os cwn, neu faeddod cas, canfyddai,
 Yn darnio y ddafad wirion, ddifai ;
 Gan ei brydwaed, ei gwyneb a wridiai :
 Ein hen Brydain i'w hwynebau rhedai ;
 A chwbl allodd achubai,—gwobrwyon
 Gan is-raddolion, gwn nas arddelwai.

Gwlad Elusen.

Prydain sydd, parhaed yn son,
 Yn meddu dawn a moddion ;
 A'i hofn, a'i pharch, fwy na phob
 Lle arall yn holl Ewrob :
 Ei chyfoeth mawr, a'i chofion,
 Yn ddi ri' sydd yr oes hon ;
 Deall y byd oll o'i ben,
 Gwel dlysau gwlad Elusen.

Y Feibl Gymdeithas.

Yr oes hon, er ys emnyd,
 Cair hi 'n berl coronau byd :
 Er ei gwawrddydd o rydd ras ;
 Dwthwn y Feibl Gymdeithas,
 Elusen Elusenau,
 Beth am hon byth i'w mwyhau ?
 O rhyfedd, yr Iehofah,
 Rhoi 'i hun i ddyn yn rhan dda ;
 Hynod ddarbod ; e dderbyn
 Yntau o gardodau dyn.
 Hynod iawn y daioni,
 Yr Ior nef, rhoi 'i Air i ni ;
 Mwy rhyfedd, Duw mawr, hefyd,
 A'i Lyfr bach ar blwyfau 'r byd.

Elusen yn teithio 'n ol i'r Dwyrain.

Od aeth y fendith hyd eithaf India,
 O'i da ewyllys hi a'u diwalla ;
 Llwybr i'w chyniwair lle bu arch Noah,
 Aed o'r Ararat i dir Aurora ;
 O'r Unys, moried i'r hen Samaria ;
 Dychwel hi 'n dawel i hen Iudea ;
 Ys llafur hon nis llwfrha ;—adnebydd
 Y eu Ieferydd ochrau Calfaria ;
 Cyn hir pregethir ar ben Golgotha,

Neu, mewn mawr awydd, yn mhen Moriah,
 Yr Olew-wydd, a mynydd Amana ;
 Daw 'r amser da 'r adfer Duw ryw oedta,—
 Pwy ? Hen eglwysydd penigol Asia :
 Cenhadon can' eu hwdä—o lnyed ;
 Neud drws agored, nid rhyw segura.
 Hwt, y Bwystfil, gau Broffwyd heb westfa ;
 Neb, neb o'u deiliaid na bo 'n Abdalah.
 Cwmp Babel uchel dan bla,—yn ei hawr ;
 Wele oleuwawr ! Wi ! Haleluiah !
 Ansawdd oer Ynysoedd Iâ—cynhesed,
 Eich tir, O caned, a choed Hercynia.
 Oian, ho, hoian, ha, ha ;—crechwenir
 Yn nef, ban gwelir gan feibion Gwalia,
 Dawn Dduw 'n dwyn newyddion da—i w hoff
 dir

Hermon a Senir, Amen, Hosannah.

Daw 'r genedl adre' i Ganan ;—daw ail
 Adeiliau coed Liban ;
 Daw mil myrdd o demlau mân,—mewn purdeb
 O odre Horeb, draw, i Haran ;
 Ac hefyd, y byd cyfan,—a fynn hi,
 Yn glau, goroni ; ac ail greu anian.

Hynt Ebusen.

Cyn hir, gwreiddir gwir addysg
 Iesu mawr, a'i ras, y'mysg
 Paganïaid y pegynau,
 Lle bydd eglwysydd, yn glau ;
 Crist'nogion ffrwythlon a phrif
 Henuriaid yn ancirif.
 Da dwg addoldai digoll,
 O'r Indus i'r Andes holl ;
 O'r Mynydd Gwyn i'r Minho,
 Caspin, Appenin, y Po ;

Tai mawl, o faint tmlau fo
 O'r Ganges fawr i Gongo.
 Wele 'r gwyllt addolwyr gau,
 O 'r miloedd, ar ymylau
 Ganges; b'o hanes pau hon,
 Fwy enwog nag fu Aion;
 Heb warth mwy aberthu myrdd,
 I fawr gerhynt dwfr gorwyrdd.

Bedyddio'n lle bodd.

Nid bodd i enaid byddant;
 Byd ddaw 'n well, bedyddio wnant;
 Un buch a'r Eunuch yr ant;—i Grist mwy,
 O fodd hwy ufuddhant.

Urdduniant yr Iorddonen
 Fo 'u deddf hwy, fedyddfa hen;
 Lle bu yn malu miloedd,
 Olwyn y certh eilon c'oedd,
 Ni fydd draw, man fu ddi drefu,
 Ar fyrr, unrhyw fawr annrhefn,
 Na gaulun i'w ogelyd,
 O begwn i begwn byd.
 Cytun fydd Catai hen, faith,
 A Chafres, dan ei chyfraith.
 Cenhadon acw yn hudaw
 At Grist, y byd trist, boed draw.
 Cofiant o lwyddiant di lys,
 Eluseni 'r las Ynys.
 Y rhawg cofir rhoi cyfoeth,
 Ac aur nef i Negro noeth.

I' Gaethfasnach erchyll.

Nid tywys Indiaid duon—mwy 'n orthrwm,
 Yn wrth'rych torr calon;
 Ond, er lles i'n brodyr llon,
 Rhoi addysg i'r gwyr rhyddion.

Yn fin fal anifeiliaid,—yn gaethion,
 Y gweithiai truciamaid ;
 Eu llafur oedd bur ddi baid,
 Goris tynbwys gwres tanbaid.

Ow ! dyn, bryfyn brau, afiach,
 Yn dwyn ei bwn, adyn bach ;
 Rhag ei weled rhed yr haul,
 Wres araul, yn brysurach.
 Ar ladron dynion nid oes
 Gywilydd weld eu gwaewloes.
 Gwrthuni gwerthu einioes,
 Trwy ben Elusen a 'n loes :
 Fyth na fid y fath an foes
 Ar Ewrob, a'i gwyr eirioes,
 A dwyn gwiw eneidiau 'n gaeth,
 Drwy osnadwy drefnidiaeth ;
 A dynoliaeth dan wylo,
 A gwedd wael, yn gwaeddi Oh !
 Fferdinand cyffroed yn awr,
 A Lewis ar oleuwawr ;
 Na b'o yn hwy unben hyll
 Gelli, a'i ddaint yn gyllyll.

Wilberforce a Howard.

Dros bedeiroes, bid araith
 Wilberforce, olenbraff iaith,
 I'r byd yn brif ysgrifen ;
 Hardd amgylcher llawer llen :
 Drwy holl Ewrob yn mhob man,
 Llinellau, o hyn allan ;
 Geiriau ei bwnc gorwiw, bid
 Arwyddair i wir Ryddid.
 Un gair, yn ddisglair, neu ddau,
 Fo 'n arwydd ar fanerau ;

Ar ffyd, neu gerbyd pob gwr
 A'r sy 'n eiddo 'r Seneddwr
 Yn Senedd Hispaen swnio,
 A phregeth ddi feth a fo :
 Llwybrau brâd, lle bu 'r iau brês,
 Ac artaith lladdfeydd Cortes ;
 Haelwyr da fal Howard, fo
 Lwyddiannus, filoedd, yno,
 Unawl, ac un hawl, cyn hir,
 Caf India a'n Cyfandir ;
 Ac nid erlid cnawd, arlwy,
 A dwyn y meib duon, mwy ;
 Elusen yn gowenu,
 O gariad ar Negro du.

Cyfiawnder i India.

Dan wlith hon, dynoliaeth dda,
 Cyfiawnder caf i India ;
 I'w thref, Ysptyt ac Athrofa—bydd,
 Erbyn a'u gilydd yn nhir Benguela.
 Dwyn i fod ddefod ddifai,—nefolaidd,
 Eglwysi Indiaidd ac elusendai ;
 I'r enwir a'r anwar rai,—dysg urddas
 Hen wersi Gildas yn yr ysgoldai.
 Gwiblwylthi 'r coed-dir, Catai,—bro 'r Ganges,
 Andes, y Gafres yn dysgu Esrai :
 Y fwyn Efengyl, heb fai,
 Trwy wir grefft yr argraffdai ;
 Mewn llyfr, a dim mwy na llai,—argraffir,
 Cyn hir, yn Senir, ac yn 'r hen Sinai :
 O ! gwyn fyd ! O gwae na fai—heb gerflun,
 Na delw neu eilun hyd lannau Ulai.

Cyfieithwyr Beiblau.

Ymddrsio mae dros y mŷr,
 Acw i faethu cyfieithwyr ;

Mwy boed nawdd meib duon wyr,—plant
gwylltion

Fu 'n byw yn noethion fo 'n benieithwyr.

Meib i Garey 'mhob gorawr,
Canwyf mwy, cynhaeaf mawr.

Elusen a'r Pagan.

Ynfydion dan ofidiau,—gwirioniaid

Gorynys y Deheu ;

O chaiff aur a chyfflyriau,

Nis meth hon eu hesmwythau.

Dwyn nwyd-wyllt waew-eneidiau—cythreulig,

Rai gwallcof loerig i well cyfflyrau :

O gariad, gwneyd ei gorau,—na bo 'n gaeth
Neb, yn ysglyfaeth i'w boenus glwyfau.

Y gorddeirch ydynt ei gwir ddyrchedig ;

Hwynt fynn nodi ei chyntaf-anedig :

Gwena a gwridda 'n gareddig—arnynt ;

A densyn iddynt yn ofoneddig.

Diwalla, dyhudda hon

Alltudion trallodedig.

Prydain fu 'n peri adwyth

I deulu pell, dâl y pwyth ;

Elw trais yn ol eto rhydd

I'r byd ar ei bedwerydd,

Drwy estyn dros y donn draw—bob moddion,

O'i gwiwfawr roddion i'w gyfarwyddau.

Senedd-wyr Prydain ac Elusen.

Yma i'r Senedd, wiw ymrysonau,

Y cair rhyddfreinwyr cywir ddwyfronnau ;

Dyngarwyr, gwladgarwyr o glod gorau ;

Gwerin bleidwyr dan goron a blodau ;

Dros y tlawd, didlawd eu daddau :—gwarant

In' y try llwyddiant eu haur-allweddau.

Ac os oedd dda gosod gwiw swyddgeiswyr,
 Yn newydd, orchwylus, gynddrychiolwyr ;
 Ni a'u disgwylwn, onid oes gwaelwyr,
 Ein gweinidogion gwiw, a'n diwygwyr :
 Nid i ddifa 'n dioddefwyr—todiwr,
 Na dal yn gaethion dwylo ein gweithwyr.

Dadl Masnach Rydd.

Symudwch y dreth sy 'n dyfetha ;
 Un glo 'n aberoedd, un gwlan a bara ;
 Ac un halen, rho'wch ar y cwn hela,
 Neu ar deulu Endor, a dail India :
 Neu wnewch yn unionach na hyn yua.
 Alban, Lloegr, clybwn oll, â—chwerw iawn
 floedd ;

Llais ein cenedloedd oll sy 'n cynadla.
 Treth ydd yd, nid rhith o dda,—dilewch
 O lwg, O gwylwch lewygu Gwalia !

Arlwy na b'o mwy yn mhob man,—rhwng holl
 Ringylliaid pedryfan ;
 Gridyllio 'r *gair du* allan,
Lloegr gôch yn llewygu 'r gwan.

Y ddwyradd Senedd wiwrf,—iawn syniont
 Hyn o senn o ddifrif.
 Tai disgraid, at Yd-ysgrif,
 A fo 'n peryfon a'n prif.

Na foed gormod baich.

Nid bod blwyddyn a blwyddyn yn bloddest ;
 A cheisio gwleddoedd o'u chwys, a gloddest ;
 Ond arwain barn mewn dirwest,—o bobtu ;
 Yua llewyrchu wna llai o orchest.

Na bo unpeth yn benpwn ;
 Llwyth rhy fawr, rhag llethu 'r fenn :

Gyrrwr teg, ac riwiau 'r tynn,
Ni yrr ei wêf yn rhy wan.

Ys cymwys y nodais y camsyniadau ;
Deued adgodiad, a diwygiadau ;
Bywyd tylodion heb ataliadau ;
Ac na bo ochain gan waew eu beichiau ;
Uchel dwyll, a chaled iau,—gan druain,
Mwy ; ac y' Mrydain dim camhaeriadau.

Anghyfiawnder, mam Gwrthryfel.

Gwir athrofa gwrthryfel
Yw 'r frysgyll daer, fraisg lle dêl ;
Ni ddaw i'n blingaw ni blaid,
Yn Mrydain o Nimrodiaid ;
Yn ysgol hedd nis gwel hi
Un Gwrtheyrn, na gwarth arni.

Ond hwy a ledant i'w hewaint tlodion,
Eu calonnau a'u dorau, yn dirion ;
Ystyriant eu heisiau taerion ;—cofiant
Mor dda a fyddant mewn myrdd o foddion.

Y tir amaethant, gwnant bob trymweithiau ;
Ein tir diffynnant trwy waed a phoenau ;
Cyrn ein teyrnas, gwaissg urddas, gosgorôdau,
Yn gwrthdrin gâlôn, greulon, hagr aeliau ;
Morwyr, morawerwyr, grym i'w mawreiau,
I drosi llynges hyd wersyll angau ;
Dwyn pwys Celfyddyd ein pau ;—ac hebddynt
I ba blwy 'r hêlynt bobl y rheolau ?

Ein boneddion, byw 'n haeddawl—y byddont,
Er budd cyffredinawl ;
Ac er mwyn cyweirio 'u mawl
Yn lforiaid anfarwawl.

Cyn'r Gweithiwr.

Yn ymyl barn, aml y bu
 Drudaniaeth yn dirlynnu :
 Gwaethu cyflog y gweithiwr ;
 Arno bu curo bob cwrr.

Mae y gwr yn ymguraw,
 A'i dylwyth yn wyth neu naw :
 Dan oer hin yn dwyn y rhaw,—mewn trym-
 waith ;

Bu ganwaith heb giniaw.

Aml y mae yn teimlo min
 Yr awel ar ei ewin ;
 A llwm yw ei gotwm, gwel,
 Durfing f'w waed yw oerfel.
 Noswyllo yn iselaidd,
 A'i fynwes yn brës oer, braidd.
 Ba helynt cael ei blant eu,
 Oll, agos a llewygu ?
 Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
 Rho'i angen un rhwng y naw.
 Edrych yn y drych hwn dro,
 Gyrr galon graig i wylo :
 Pob cell a llogell egyr,
 A chloiau dorau a dyrr.

Rhodaf iddynt o'm da.

Af yn awr, os erys fy nhrysorau,
 Yn y tryfesur torraf eu heisiau :
 Ys y'nt weithion yn noethion dan aethau ;
 Ydd hil haelionus a ddel o'u lwynau,
 Ond odid, dan wendidau,—nad f' wyrion,
 A berth ddanteithion a borthant hwythau.
 Pwy wyr pa ddamchwa a ddymchwel—'y
 mwrdd ?
 A'm hurddau goruchel,—

Chwith, ni wy's dim chwaith, nes dêl
Mawr drysawr Duw i'r isel.

Llawer man lleiheir mw nai ;
Rhyw ail drefn i'r awel droi :
Daeodd, a thiroedd, a thai,
Iechyd a pharch wedi ffoi.

Ni threngaf, er rhuthr angen,—dan ofal
Duw nef, ac nid angen ;
Caf swynhau, caf fyw yn hen,
Ryw ail oes ar Elusen.

Gweithiaf, ac enillaf arian.

Ond gweithiaf yn ddyfal a gofalus ;
Enillaf arian, yn ddyw llafurus ;
Fy alaf arbedaf yn ddarbodus ;
Nid i'w claddu yn do cywilyddus,
I rydu ; na 'u treulio yn afradus ;
Ond rhannu i'r truenus,—a'u llonni,
O'm holl ddaioni, a 'myw llwyddiannus :

Lle i roi arian.

Rhoi 'nghymydd i'r anghenog,
Arian-lle da i roi 'n llog ;
Mechnydd, dyledydd di lŷth,
Llaw gaf syth hollgyfoethog.
Rhyw hogiau, a rhai egwan,—yw 'r pyrsau ;
Ie, 'r gôd orau i gadw arian.

Tlotyn, angel yn canlyn.

Ys oedd minteioedd tewion,—i'r drysau,
Ar draws, o dylodion ;
Bendithir, cyn hir, gan Ion,
Tai 'r gwragedd trugarogion.
Credu ateb cardotyn—gwan, distadl,
Gan dystion sy 'n canlyn ;

Nabod iaith wyneb y dyn,
Tecach na llawer toeyn.

Digon o dystion distaw—yw 'r corpws,
A'r carpiaw am danaw ;
Tru yw dull hwn, troed a llaw,
'R wy'n gweled, bron ag wylaw.

Daw atoch hen gardotyn,—rhai i'engaidd ;
Rhyw angel yn canlyn ;
Gwel yn deg, drwy galon dyn,
Ba groesaw ga' feib gresyn.

Parab Ffrole, Elusen at eisiau.

Rhai beilchion, breisgion ein bro,
Caerbaddon ceir i'w boddio ;
Ac wedy'n, gwenyn yn gwau,
Carant, colleidiant flodau ;
Sais ei bwne ; a Swiss i'w bau ;
Elusen lle gwel eisiau.

Gwaith Elusen.

Melysu mae Elusen,
Y bustl, a'r huddugl, o'i ben ;
Gyrr chwewder o garchardai ;
Newyn y lleidr a wna 'n llai.
Nid bai a nodâ i' bys ;
Ond angen hi a'i dengys.

Natur Elusen.

Gwreichionen, haden yw hi
O ras lon a'i resyni.

Henffych well i'ldi.

Aed ogyrch, a diwygio,
Diwallu byd oll y b'o ;
Teyrnasoedd truenusion,
Draws a hyd, a drwsio hon ;

Gwellhau pob llwythau i'w plith :
 Hyd Banda aed ei bendith.
 Anhydedd y Gogledd gweld
 Ei phrif-ffyrdd drwy'r Dophraffeld.
 O'r Appenin i'r pinwydd,
 O dywyn i benrhyn bydd ;
 Pob pant, bryn, nant, pob rhyw nen,
 Oll lle dringo lleidr angen ;
 Draw rhaeadru drwy 'r hydred,
 Mwynder hon, fal Moendor, rhed ;
 O'i golud, byth, gwlaw di baid,
 Mae digon i'r Madogiaid.
 Llwyddiannus ca' Elusen
 Wynfyd ar y byd o'i ben.
 Oi, Oi fydd yr oroian ;
 Natur, o gyleb, un tro gân ;
 Brau ddwsmel beraidd, esmwyth,
 Rhyw bibell aur i bob llwyth.

Drwy bau deg ered, a'r byd erwn,—ei llwybrau,
 Ar heirdd orlennau 'r hir ddarluniwn ;
 Diwedd ei hawdl, y dydd hwn,—mewn saffir,
 Ag aur o Ophir, a argraffwn.

GRUFFYDD DAFYDD O FRYNENGAN.

MODEDIG o ddawn nid ydoedd,—er hyn
 Rhannai fara'r nefoedd,
 O'i law aur i laweroedd,—
 Offeryn Daw, a'i ffryd, oedd.

Awdl Cyfarch y Gweithwyr. 95

CYFARCH Y GWEITHWYR.

*With fynyed heibio, y Sutwyn olaf o Ionawr
1820. Planwyr coed Syr Thomas Mostyn,
perchennog y Gaerwen, oeddynt. Maughan
oedd y goruchwyliwr.*

WEL iechyd, iechyd ichwi—y gweithwyr ;
Pob gwythen ar egni ;

Milain hwrdl—y'mlaen a hi,
Mae 'n rhy'wyr y' min rhewi.

Ho, mae cant am y cyntaf ;—am y pen

Y mae pawb, mi welaf ;
Gwa'wdd yn ol, a gwaeddi wnafl,
Mwy gwrol am y goraf.

Daw, 'r truaïn, ich' draed rhawiau ;—da paloch ;

Daw polion i minnau ;
Na fo'n bod, yn Eifion bau,
Eisieu mawrion swmerau.

Nid hel brwyn ond hwylbreunau—y byddant,

Er budd i lyngesau ;
Gwae y lleidr—byd yn gwellhau,
Grug a brwyn yn grogbreunau.

Gwyr nerthol a wnaen' gryn wyrthiau ;—palent

Nes pylu 'r holl arfau ;
Emill arian holl Ewrob,
A phlannu pob affliw o'n pau.

Ban chwysoch, ben a choesau,—da palweh ;

Daw pelydr melinau ;
A thyf o bridd eithaf brau,
Er eich mwyn, arch i minnau.

Rhyw wych grydau, eirch credir,
O'u ceinciau 'n hawdd, cawn cyn hir ;

Newid ar ddeunydd noeau,
 A thanwydd o'r bregwydd brau.
 Ac wedi rhoi 'r coed ar werth,
 Gofynnir rhyw gyfanwerth ;
 Gwel Rhifydd gymynydd mawr,
 Wrth y droedfedd, werth drudfawr,
 Rhagor mawr i'r gwr a'n medd,
 Ar y grug ddygai 'r gwragedd.
 Creu a wnewch i'n Caerwen ni,
 Cysgod rhag dyrnod oerni ;
 Cysgodion lle cwsgr adar,
 Tŷ 'r edn gwyllt, a'r eidion gwâr :
 Ac is gwiwdeg gysgawdwydd,
 Eidionau 'n porfâu a fydd.
 Cau cloddiau, amhlau, mal hyn,
 Y gwrysgoedd i'w goresgyn ;
 Y fath ddrain a feithrinir,
 Fu gynt yn swganod tir ;
 Synai hen oesau yn ol
 Fynd eithin mor fendithiol.
 Defaid, gwartheg, ac egin,
 Ca'n't les rhag gwres ac oer hin ;
 Wyn a lloiau yn lliaws,
 Amgen hwynt, magu yn haws.
 Amhlau buchesau a chaws ;
 Mwy ddengwaith yn ymddangaws :
 A slyniant, prifant y praidd.
 Lle porant y mill peraidd.
 Ys degwm sy daeogaidd,
 Yn gwywo 'r yd yn y gwraidd,
 Cnau 'r ddlaear liwgar ar led,
 Ei chnwd rhydd,—a chant drwydded.

Y dwfr fu 'n codi efrau—i gerdded
 I dir rhy galed, hyd rigolau ;

Cyfarch y Gweithwyr. 97

Yn ddof y rhed, dan ddyfrhau—y sych-wraidd ;
Dwg wair gwlyddaidd hyd y gweirgloddiau.

Ys byr-frwyn, llafwyn yn llu,
Neu gyrs oedd yn gorseddu ;
Pabwyr gleis, pob oerweig wlydd,
Hesg lwyni, a siglennydd.
Pe bai grug pybyr eu gwraidd,
Byr galed-wellt brig-lwydaidd,
O unhyw do yn rhy dyn,
Garw wasgawd yn goresgyn ;
Dyfrïo 'n dda, ac yna cair
Rhyw well gwair na 'r droell goryn.

Ys Pedr, oedd hyfedr, wnai dda—dielfydd,
I oerion rosydd yr hen Rwsia ;
Pwy draw a fu er Pedr Fawr—yn ail Maughan ?
Ni wŷr hanesion yr un eisawr.

Amaethad yma weithon,
Ddieithr beith a ddaeth o'r bôn ;
Mawr fendith mwy ar fawndir,
Cawd da cynhyrha cyn hir.
Llygra cawn ; yn lle grug hyll,
Dwyn cywarch lond ein cewyll ;
Certwyni 'n cario 'n tunell ;
Ni raid mynd i rodio y'mhell.
Ni ymholwn am hwyfiau,
Draws y byd, o Rwsia bau ;
A throï a wnawn, uthr i ni,
I ddiin llin a'i droï 'n llenni,
Darbodus, haelionus law,
Da reolaeth i dreuliau ;
Rhwydd yw pawb yn rhoddi punt,
Mae 'n debyg, er mwyn dwybunt :
Ar un pen yn rhannu punt,
Mewn deuben mynnu dwybunt ;—

Pwyntio 'n well, rhoi punt a wnaeth
 Ennill talent lled helaeth.
 Dyma gynllun cyfuntawn,
 Selef yr oes, law fawr iawn.
 Irdw ar hyd y fro hon,
 Ail i binwydd Lebanon ;
 Mal Liban a Basan bydd,
 Drych wiwdrefn, derw a chedwydd ;
 Ein Eifonnydd newydd ni,—a'i lloerawg
 Ymylau 'n goediawg mal Engedi.

Ein Rhos fawr yn rhesi fil
 Heb ddim elfydd ; bydd milfil.
 O goed, aml mân-goed, milmyrdd—addfeinion,
 Ac ereill praffion gar llaw prif ffyrdd.
 Pen y gamp i hon a gwyd,—lle weithian
 Y llunir gwinllan well na 'r Ganllwyd.

Plannu ac nid prynu pren,
 Ymddiried, mwy, i dderwen.
 Nythed brain, a thoed y brig,
 Dail a mes, deulu miwsig ;
 Goglais a'u meinlais mwynef,
 Ynghlyw 'n ail angylion nef,
 Pyncio, bob edn, yn llednais,
 Ryw bwystlais, arab oslef.
 Gwaed y bardd, fe gwyd ei ben,
 Cyffroant, caiff yr Awen.

O aed i'r moelydd i doi 'r ymylau,
 I odreu 'n bronnydd i drin ei brennau ;
 Coroni pob cwrr o'n pau ;—gwŷdd tewfrig
 A wna 'n foneddig ein hen fynyddau.
 Gwinllanoedd o gynlluniau—gardd Eden,
 Ar dir y Gaerwen, o'r derw gorau.

Cnwd ail fu cyn y diluw,
 Lle gynt oedd oll o gnwd Daw :—
 Os planwyd coed ysplenydd,
 Gan law Daw 'n gymil liw dydd,
 (Ac ys Addaf, doethaf dyn,
 Fu gwedyn yn fegidydd,)
 Ei was sy'n awr, is y ne,
 Dyn a wŷr, yn dywared.
 I ni a'n plant daw'r fantais ;
 Tra b'o y byd, tyrr bob ais,
 Pulpudau 'mllob plwy',—peidiwn
 A chadw swa,—iechyd i Sais :
 Dieithr Lyw fendithio 'r wlad
 Ymddifad, am ei ddyfais.
 O'r coed Gopher cyd gaffom,
 Mal No gwneyd arch, drwy barch b'om :
 Arch o'n mës ar erchwyn môr,
 Acw i w dynged cwyd angor.
 Uweh y mes hyn, chwe mis hir,
 Meibion da Gwalia gwelir ;
 Cenhadon acw 'n hedeg,
 Dwyn gair Daw yn gywir deg.
 Ai trwy hyn, eto, y rhaid
 Diwygio y Madogiaid ?
 Hanbo i chwi henbych well,
 Mae llin Cam oll yn cymell ;
 Troi 'r hinos o Batmos bell,
 Dwyn byd oddi dan badell.
 Pan delo pob hen dylwyth,
 Diwygo llin y Deg Llwyth :
 Gwna di ludd genhadau lwyth
 Ismael ac Esau 'n esmwyth.
 Gan hynny os felly fydd,
 Rhaid trin mes,—rhaid rhoi 'n meusydd.

Prinion iawn yw prennau 'n wir,
 Prinion a drud y prynnir ;
 P'ond di brin pan y ty' braff
 Frenhnbren y fro 'n henbraff.
 Ergyd trwm ar goed tramor,
 Dychryn maent hyd ochrau 'n môr ;
 Prynnu y b'ont, prennau o bell,
 Yn danwydd wrth y dunell.
 Y derw i werth a dyrr wŷdd,
 Gyrr helyg o'r heolydd ;
 I Halifax hel i sfordd
 Y gweig ysgaw â gosgordd.
 Cymyredd, ca' Amerig
 Ddoeth, gall, oddeithio ei gwig.
 Tynn cedrwydd at ein Cadres,
 Rhyw gan' myrdd o'r egin mes :
 Oni ddaw yn oddioed,
 Naw cant i gymynu coed ?
 Gwel y derw a gludeiriant ;
 Tua 'r môr yn llwyth trwm ânt.
 Pedrol fen ;—pa dreulio fydd—dyfeisiau
 Amryw o fennau y'mro Eifionnydd.

Bro Eifionnydd, brif hanes,
 Toir y môr a'n tir o'i mes ;
 Meib gwrol y'mhob goror,
 A'u gwaliau mes, gwylio môr ;
 Mŵg a niwl o'u magtelau,
 I ddychryn pob gelyn gau.
 Camwri nis cymerwn
 Ond trinwn ein tariannau.
 Torri crib hir Twrc a'r Pab,
 Bo 'n arab ein banerau.

Cyfarch y Gweithwyr. 101

Mawr gerydd ar bob môr-gawri—diriaid,
Amerig wylliaid, lladron môr Gelli ;
Crynnu a whant ; corniwn ni—wyr Fflanders ;
Gwae aerwyr Algiers, ar gyrrau 'r weilgi.

Ac ar y wendon, er ei gerwindeb,
Heriau ac anturiau, gwneyd diareb :
Nid rhaid i ni fynd dan draed neb—dynion,
Cefnu yn weinion, nac ofu un wyneb.

Ar gair mawr a gario Maughan ;
Aed a'r gair da, a'r goron.
Y tŵ 'n oes y to nesaf,
A'r amcan, cyfan y câf ;
Tystio mai dâ iddo oedd
Gau degau o goedwigoedd.
Rhyw fro foleh, ar fyrr, a fydd ;
Pau 'r llwyni a'r perllennydd ;
Ei chlod fyth fwy na Chlwyd fawr ;
Hefelydd hi i Faelawr.
Grymusder, ac aur Mostyn,
Ni fyrha, a 'n fwy er hyn.
Elwydd hir eiddunir i dda
Syr Tomos ; rhoed Duw, yma,
Hir oes, hedd, a'i ras iddo ;
Gwych ei fyd, ac iach a fo.
Bendithion lon y wiwnef,
Ar ei dir, a'i aerod ef ;
O blaid ei ddeiliaid, llaw 'dd lon ;
A b'o woseb i'w weision.
O'i roddion gwiw a diwael,
Arch o'i goed a ercha' i gael.
A da 'r cof, wedi 'r cyfan,
Maughan am goed—minnau am gân.

BEIRDD CYMRU.

I. COF GORONWY OWEN.

ANAL awdlau cenedloedd,—ac iddo
 Rhod cywyddau 'r nefoedd ;
 Angel i wneyd englyn oedd,
 Mawr awdwr Cymru ydoedd.

II. BEDDARGRAFF DAFYDD DDU ERYRI.

(Bu farw Mawrth 30th, 1822).

O fedd oer ein Dafydd Ddu—henadur
 A hynododd Gymru ;
 Ewythr i feirdd, athro fu,
 Cefn wrthynt i'w cyfnerthu.

III. CYFARCH EBEN FARDD.

Pan enillodd "Dinistr Jerusalem" gader Powys, 1824.
 Ebenezer, o bu 'n isel,—a godwyd
 I gader oruchel ;
 Uwch uwch ei rwysg, uchach yr êl,
 Dringed i gadair angel.

IV. WRTH DDARLEN SALMAU NICANDER.

Morus Wiliam yw 'r Selef,—yr Heman,
 A'r Homer digyfref ;
 Di feth un, dau o'i fath ef
 A wnai Wynedd yn wiwnef.
 Morus sy 'n Forus anfarwol,—Morus,
 Sy 'n un mawr ryfeddol ;
 Ni fydd ei enw ef yn ol,
 Ond Morus anghydmarol.

ENGLYNION PONT MENAI.

- 3 FAM Gymru bu o'r bôn—hen fythol
 Hynafiaethau mawrion ;
 Pont Aethwy, y pwynt weithion,
 Myrdd mwy na mawreddau Môn.
- Uchelgaer uwch y weilgi,—gyrr y byd
 Ei gerbydau drosti ;
 Chwithau holl longau y lli,
 Ewch o dan ei chadwyni.
- Gwel foddî 'r saith Gelfyddyd—uthr foddî 'r
 Saith Ryfeddod hefyd :
 Ac o'r iawn-falch gywreinfyd,
 Pen y gamp yw hon i gyd.
- Troi i'm myfyr, tramwyfa—o gwmpas
 Hen gampwaith Pont Cina ;
 Cwmpai 'n ddim, camp hon oedd dda,
 Pau welwyd camp hen Walia.
- Pontydd byd, pwyntiodd eu bai,—nid ydynt,
 (Nodedig Bont Catai,
 Ryw hesgach llwyd, wrysg a chlai.)
 Ond pwynt main at Bont Menai.
- Cloddiwyd, gosodwyd ei sail—yn y dwfn,
 Nad ofnir ei hadfail ;
 Crogedig gaerog adail,
 Na roes yr Aifft engraiſt ail.
- Llaw Morddal, Tubal tybir—yn unaw
 Ynys a Chyfanidir ;
 Uno, dyasio dwy-sir,
 Lle asient ein llesiant hir.
- Nid gyrdd myrdd, nid gordd Morddal,—
 wnaent Ewrob,
 Neu 'n tyrau 'n gyhafal ;

Ni saif chwaith, uwch waith na gwal,
Gorff tebyg o greffi Tubal.

Ar lawr, rhowch yn awr Arch No,—uthr i bawb,
A Thŵr Babel wrtho ;
Pump o faint un Pompey fo,
Chwe hynotach hon eto.

Bathwch yn un holl bethau—hynodion
Hen awdwyr yr oesau ;
Hynotach, ddirach o'r ddau,
Yw 'r Bont hon ar bentanau.


Ban o agwedd benigamp—ucheled
Ei cholofn gadarn-gamp ;
Dros forgainc, drws o lawrgamp,
Deuddwbl ydyw 'n gwbl dan gamp.


Amryw ganllath uwch y môr-geulli,—ei hyd
drudfawr ;
Tair rhodfa sydd arni ;
Tri deg llath, tra digio lli,
Yw 'r heolydd o'r heli.

Rhoir i wyr yr Awyren,—gynt rhedfa
Gan troedfedd yn wybren ;
A'u rhawd yn uwch na rhod nen
Caerdroiau, lle crwydr Awen.

Daw agerddlong hyd y gwyrdlli—môrfeirch
Yn ymarfer dani,
Chwe phaum hardd uwch ei phen hi,
A'n mwyn deyrn yn mynd arni.

O daw i fwrw diferion,—dwy enfys
O dywynfa 'r hinon.
Paladr haul uwch pelydr hon,
A oreura yr awrhon.





POST MESAL

Am byst hon mae host o hyd,—bost Ewrob

Ystyrir hi hefyd ;
Yn ben ar ben bannau 'r byd,
Maen clo fydd mewn celfyddyd.

Drych byd o Archwybodaeth,—anturnwyd

Ein teyrn a'n hunbennaeth ;
A chofion o'u huwchafiaeth,
A dawn gwneyd y dyn a'i gwnaeth.

Ouwch cyrraedd rhawch cerhynt,—a chryfach

Na chrafanc y corwynt ;
Ei thidau, mawrnerth ydynt,
Uwch nerth mawr gerth môr a gwynt.

Tra chynnwrf môr yn trochioni,—tra thonn

Trwy wythenau 'r weilgi,
Ni thyr hwn ei thyllau hi
" Tra 'r crys Tŵr Eryri."

Esgarir yn ysgyrion—cant Ewrob,

Cyn torro 'i gafaelion ;
Yr ogof fawr ynghraig Fôn,
Gyferfydd ogof Arfon.

Awr o Fawrth, oer ryferthwy,—cal fynd o'n

Cyfandir i dramwy ;
A theithial uwch Porthaethwy,
Safnau 'r môr nis ofnir mwy.

Ia yr awyr a'i rewiant—a chenllysg,

Ei chanllaw ni waethant ;
Fflamfellt yn ei dellt nid ânt,
Dur ei thidau wrthodant.

Hammer y nos dos i daith,—mwyn yri,

Mewn awyren-fachdaith :

Nid cerhynt, na chorwynt chwaith,
O'th dramwy a'th dyrr ymaith.

Nid cwrwgl a nadai cerhynt,—ysgraff
A esgryn y corwynt ;
Ei thidau nid earth ydynt,
Neu soff a gwawn a syfl gwynt.

Dwy heol ydyw o haearn,—praffwaith,
Prif-fordd hardd a chadarn ;
Gwiw orsedd, ac awyr-sarn,
Safed fyth,—sef hyd y Farn.

— —

TORRI SYLFAEN MORGLAWDD MADOG.

Breuddwyd gŵr llwyd oedd gar llaw.

MID hawdd gwneyd Môrglawdd mawrglod,
—Duw unwaith
Ordeiniodd y tywod ;
Hwn sydd, ac a fydd i fod,
Yn deifyn llanw di-orfod.

Mwy perwyl na champwri,—a gorchest,
Fydd gwarechae y weilgi ;
Nid gwâl a all atal lli
Y môr dwfn, mae rhaid ofni.

Daw dydd ysmaldod y donn,—dychwelyd,
A chwalo gwaith dynion,
I fwrw ei hallt lafoerion
Fel y gwnaeth yn Malldraeth Mon.

Er gwyr call, diball dybian,—er cawri,
A'u cywrain fwrïadau ;
Llŷaint, er cymaint yw'r cau,
Dŵr a fydd ei derfynau.

OES DYN AC ANGAU.

YSTYRIWN einioes dyn, ein dichlyn daith,
 A hyd y bywyd byrr, mewn myfyr maith ;
 Gaeaf-ddydd trymlyd yw, oer ydyw'r hin,
 Ac nid oes munud byrr heb lafur blin.

Dir yw nad ydyw dyn ond gwyfyn gwael,
 A'i ronyn amser drwg ar brysur draul ;
 Diflannu mae fel ôd, neu gysgod gau,
 Fel lled-laith niswl llwyd, a breuddwyd brau.

Mae dyn, lysesuyn sal, gwan, meddal, mad.
 Fel brwynen grinwen grom, ar lom oer wlad ;
 Fel cawn, neu wawn, un wedd o lygredd lin,
 Fel gwelltyn, gwlyddyn glas, fel cras soff crin.

Ein hyder ar ein hoes na rown yn hwy,
 Ond ias y gelyn mawr disgwyliwn mwy ;
 Pob oed a gwymp i'r bedd, pob gwedd i gyd,
 Cadd llawer maban, do, y gro yn gryd.

Marwolaeth gaeth ei gwedd, i'r bedd oer bwys,
 Mae'n casglu bonedd byd dan gysglyd gwys ;
 Pob enw, iaith, a gwaed, dan draed yn drwm,
 Dwg bachau angau oer, i'w gloer dan glwm.

Nid ydyw'n arbed un anwylddlyn iach,
 Iawn glodfawr Gun na Glyw o unrhyw âch ;
 Breuhinoedd ac arglwyddi ceir i'w gloer,
 Dwyn o yscarlad wisg is cwrldid oer.

Heb un disgwyliad, baidd i loewaidd lys
 Ddwyn pla neu haint, i ladd un radd ni rus ;
 Er corff lliw'r asur cain, rhos, eiry, calch,
 Y bachgen addieu ir, neu feinir falch.

Dyn syw fu'n denu serch, loew ferch, ael fain,
 A delw glendid oedd, ar goedd, wawr gain ;

Ow gau y deg ei dull dan dywyll do,
Dwy geulan dew a gudd ei grudd mewn gro.

Yr athro clodfawr, oedd ar goedd mor gu,
A drengodd, Ow, rhwng dwylaw'r angau du ;
Trosglwyddo'r ysgolhaig a'i rwyg i lawr,
Mewn arch dan dywarch do, mae'n huno'n awr.

Daw'r aerwr, er peryglon lawer pryd,
O'r drin fawr adre'n fyw drwy bob rhyw byd ;
Daw angau mewn llid traws i'r man lle trig,
Terfyna'r einioes ferr â'i ddager ddig.

Pa filwr balch ei ben, neu gadpen gwiw,
Aeth drwy farwolaeth drom yn ffrom ei ffrw ?
Pa ieuanc was di-rus, os daw i'w rwyd,
Na chryn o'i draed i'w ben, fel aethnen lwyd ?

Ni chair ar dir na môr, un doctor da,
I un mewn marwol ing, a'i bling o'i bla ;
Ni wŷs na llŷs na llech yn drech na'i dranc,
Ni thorrai'r byd yn un ei wŷn a'i wanc.

Gan hynny, dyma'r ennyd imi roi
Fy mryd a'm bwriad dwys i ymbartoi ;
Ar lwybr anfarwol wlad, cyn treiglâd trwm,
Crist imi'n gyfaill hael mewn gaeaf llwm.

Efe a drechodd dras galanas lu,
Fe lamodd yn nghadwynau angau du ;
Gan dynnu'r colyn eas, a'r glas hir gledd,
Oedd gan y garw aerwr hagr ei wedd.

Dwg lwch ei briod glau ryw forau fydd,
O'r dyffryn sy'n ei dal, i'r ardal rydd ;
Heb ofni angau byth, a dilyth dôn,
I gyd-foliannu mwy y dwyfawl Ion.

Rhagfyr 11, 1805.

BREUDER OES DYN.

WRTH weled fyrred ydyw f'oes, ni phery
f'einioes fawr,

Ail gardd-lysieuy'n gwyrddlas wyf, er maint fy
nwyf yn awr;

Y boreu tyf o'i wraidd i'w frig, brydnawn gwyw-
edig yw,

Yr oes orhwyaf is y rhod, ail diwrnod o law Duw.

Nid oes drwy'r byd mewn bywyd byrr, ddim
cysur, f'enaid eu,

Heb wir adnabod brawd o'r nef fu'n dioddef
angau du;

Rwyf fi'n dibrisio'r bywyd brau wrth chwarent'r
farwol chwyth,

Am fod i'w gael im fywyd gwell mewn nefawl
babell byth.

Gau weled fyrred ydyw f'oes, mi goda'r groes
drwy gred,

Dilynaf Grïst tra byddaf byw, tragwyddol ydyw'r
ged;

I hynny daliodd f'enaid i, gan sefain yn ddi-lyth
Am fynd i'r gwynfyd sy'n y gwawl, a'r bywyd
nefawl byth.

Gwir ddawn a grym i ddwyn y groes bob dydd
o'm hoes boed im,

Yn ail i dardh, neu niwl y dydd, hi dderfydd yn
ddi-ddim;

Pan bwy'n dibennu'r bywyd bach, a chamu'n iach
i chwi,

I'r nef, deheulaw Duw ei hun fo'n derbyn f'enaid i.

Y BARD D EI HUN.

I.

WRTH EDRYCH AR EI BORTREAD.

DEWI Wyn wyf, dien wedd,
 Ac o 'ngenan cynghanedd ;
 Fy arwyddair fo Rhyddid
 Pob gradd heb na lladd na llid :

Dawn byd a'i wyneb ydyw,—trybelid,
 Ysgol Rhyddid yn disgleirio heddyw.
 Trwydded i fyd, Rhyddid fo,—O Rhyddid !
 Enynnod Rhyddid yn enaid trwyddo.

II.

DEWI WRTHO EI HUN.

Yn myd Awen mae Dewi,—a'i enaid
 O anian barddoni ;
 Pallai olud Pwllheli,
 Neu fyd tlawd, fy atal i.

III.

OED Y BARD D.

Rhagor na deg ar hugain—yw mlwyddau
 Aml heddyw 'r wy 'n ochain ;
 Er nad rhyw hen-oed yw 'r rhain,
 Ond agos iawn yw dengain.

Be digwydd byw y deugain,—dyn gwannaidd,
 Dan gwyno ac ochain,
 Ac aml groes i feinioes fain,
 Tra agos byddai trugain.

Onid drwg iawn y trugain ?—y chydig
 Bach wedyn a arwain,

At y rhai mwyaf truain,
 Ambell hen wr musgrell main.
 Drygau y pedwar ugain,—anallael,
 Na ellir braidd ubain ;
 Prif haint yr henaint yw 'r rhai 'n,
 Gwachul a chull a chelain.

IV.

GORFFENAF 19, 1840.

Mor ferr yw 'm hanadl, mor fawr yw 'mhoenau,
 Gan drydar nwydwyllt, gwŷn dirdyniadau,
 Am ddolur fy meddylliau,—yn ddibaid,
 Mae gwaew o enaid i'm gewynau.

V.

YN EI AFIECHYD.

Arteithiau, aethau weithion— golwythog,
 A lethant fy nghalon ;
 Ymchwydda, ymrwyga ' mron,
 Mewn gofid— ac mae 'n gyfion.

Ymhob achos am bechu—rhyfygawl,
 'R wyf agos a threngu ;
 Bydolrwydd, cnawdolrwydd du,
 Daeth a melldith i'm halltu.

Och ! i'm ofid ! ofid ! Och ! am afael
 Godrist galon ynghyffion anghaffael ;
 Dau gerydd, adyn gorwael,—mewn pruddglwyf
 Dyma lle 'r ydwyf, wedi 'm llwyr adael.

Ys arweiniais ar unwaith—oes Esau,
 A Belsassar ddiffaith ;
 Ac i Demas cydymaith,—wyf hafal,
 I Saul a Nabal, dan sêl anobaith.

VI.

ADOLYGU EI FYWYD.

Mawrth 11. 1840.

Wrth adolygu fy myneyd dynwedais,—

Er trallith fendith fy un Duw.—ffafrau

Hoff hyfryd y gwir Dduw,

Arweiniais yn wr annuw

Fy holl daith dan felldith Duw.

VII.

MEWN GWELL PROFIAID.

Dybryd yw 'nghlefyd a 'nghlwyf,—gan waethu,

Er gwneuthur a allwyf ;

Ymroi raid, marw yr wyf,

Marw raid, ymroi 'r ydwyf.

Drwy y cerydd, Duw 'r cariad,—er Iesu,

A roes y fath daliad ;

Agor ddrws trugaredd rad,

Imi, Ddafydd amddifad.


Rhyfedd Dduw, rho faddenant—im mewn cred,

Er mwyn Crist a'i haeddiant ;


Gwna fin 'n dduwiol, siriol sant,

I gynnal pwys gogoniant.





BIDDAC DEWI WYN A'I FRAWD.



CYFRES Y FÏL.

Y mae y cyfrolau canlynol wedi eu cyhoeddi.

Cyfrol 1901.

DAFYDD AP GWILYM.

Cyfrolau 1902.

GORONWY OWEN. Cyf. I.

CEIRIOG.

GORONWY OWEN. Cyf. II.

HUW MORUS.

Cyfrolau 1903.

BEIRDD Y BERWYN.

AP VYCHAN.

ISLWYN.

Cyfrolau 1904.

OWEN GRUFFYDD.

ROBERT OWEN.

EDWARD MORUS.

Cyfrolau 1905.

JOHN THOMAS.

GLAN Y GORS.

GWILYM MARLES.

ANN GRIFFITHS.

Cyfrolau 1906.

EBEN FARDD.

SAMUEL ROBERTS (S.R.).

DEWI WYN.

Ercill i ddilyn.

Pris 1.6 yr un; 1.0 i danysgritwyr.

Fw cael oddiwth R. E. Jones a'i Ffoddyr, Conwy; neu oddiwth Ab Owen, Llanuwchllyn.

Anfoner enwau danysgritwyr i O. M. Edwards, Lincoln College, Oxford. Gellir cael yr olgyfrolau, neu ddechreu gyda'r gyfrol hon.

Cyfrolau Defnyddiol.

Yr wyf, er ys amryw flynyddoedd, yn paratol pum llyfr o gynhorthwy i'r efrwydd a'r llenor Cymreig. Nid ydynt yn rhan o Gyfres y Fil, ond gwerthir hwy i'r Fil am yr un pris a'u cyfrolau hwy. Y maent yn unflurf a chyfrolau'r Fil.

Yn Barod.

I. GEIRIADUR CYMRAEG.

Seiliedig ar waith y Dr. John Davies o Fallwyd a Thomas Jones.

Amcan y gwaith hwn yw rhoddi cymorth parod a hylaw i raj ddarlenn a deall llenyddiaeth Gymreig. Ceir ymddo hen eiriau na cheir yn y geiriaduron cyffredin. Tybir mai ar gynilun y geiriadur hwn y ceir, ryw dro, Eiriadur Cymraeg perffaith.

L ddilyn ar fyrder.

II. GEIRIADUR BYWGRAFFYDDOL.

Yn cynnwys erthygl ferra gynhwysfawr ar bob Cymru enwog.

III. HANES CYMRU.

Yn cynnwys cipolwg elir ar rediad hanes Cymru.

IV. HANES LLENYDDIAETH CYMRU.

Yn cynnwys cipolwg elir ar ddatblygiad meddwl Cymru.

V. ATLAS CYMRU.

Cyfrl sechan ddesthis o fapiau a phlantiau i esbomo hanes Cymru.

VI. DAEAREG A DAEARYDDIAETH CYMRU.

Pris i b yr un, i aly i'r F6.

I'w cael, pan yn barod, oddiwrth R. E. Jones a'i Ffrdyr, Conwy.

Ilyfrau Newyddion.

Cyhoeddir cyfres o lyfrau newyddion, y rhan fwyaf ohonynt yr un plyg, yr un faint, a'r un ffurf a Chyfres y Fil. Nid ydynt yn gyfres, ac ni ofynnir am danysgrifwyr.

Y maent i'w encl oddiwrth Ab Owen, Llanuwchllyn; neu oddiwrth Gwmni'r Wasg Gymreig, Swyddfa *Cyruu*, Caer narfon.

Pris y cyfrolau yw Swllt yr un.

Yn barod.

I. CLYCH ADGOF.

Penodau yn hanes fy addysg.

Gan OWEN EDWARDS.

- | | |
|-------------------|-----------------------|
| 1. Ysgol y Llan. | 5. Y Bala. |
| 2. Hen Fethodist. | 6. Aberystwyth. |
| 3. Llyfr y Seiat. | 7. Rhydychen. |
| 4. Fy Nhad. | 8. Dynnoid o beiswyn. |

II. GWREICHION Y DIWYGLADAU.

Wedi eu casglu gan GARNEDDUG.

Hen emynnau y Diwygiadau, tân oddi ar yr allor; llawer ohonynt yn llawn athrylith y meddwl cyffrous byw.

III. TRO TRWY'R WIG

Gan RICHARD MORGAN.

- | | |
|----------------------|-----------------------|
| 1. Coch y Berllan. | 5. Carwriaeth y Coed. |
| 2. Priodas y Bledau. | 6. Crafanc yr Arth. |
| 3. Nyth Deryn Du. | 7. Telor yr Helyg. |
| 4. Bore Teg. | |

IV. TELYNEGION MAES A MOR.
Gan EIFFOS WYS.

En y Wasg.

V. CERRIG Y RHYD.
Gan WISSIE PARRY.

Darluniadau o'r rhai sy'n camu cerrig rhyd, bywyd.

VI. CAPELULO.
Gan EIFFYS.

Hanes hen gymeriad hynod.



